



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol

**Gweithio gyda chymunedau a allai fod yn fodlon cynnig
lleoliad**

Dyddiad cyhoeddi: 25 Ionawr 2018
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 20 Ebrill 2018

Trosolwg

Mae'r papur ymgynghori hwn yn holi barn ar y trefniadau i ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru a all fod yn ystyried trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Rydym yn ceisio ymatebion ar:

- sut y dylid nodi cymunedau a beth allai "cymuned" fod;
- sut y dylai cymunedau gael eu cynrychioli a'u cynorthwyo yn ystod y trafodaethau;
- sut y dylid cynnwys pobl yn y gymuned ehangach;
- sut y dylid gweithredu'r hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd, sef y mesurau diogelu pwysig i gymunedau; a,
- sut y dylid sicrhau dosbarthu buddsoddiad cymunedol, asesu ceisiadau am gyllid, a gallu cymunedau i ddylanwadu ar fuddsoddiad yn eu hardaloedd.

Sut i ymateb

Defnyddiwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 1.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras neu mewn Braille.

Manylion Cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Cyfeiriad:

Ansawdd Amgylchedd a Rheoleiddio
Parc Cathays
Caerdydd
Cf10 3NQ

E-bost: EQR@llyw.cymru

Rhif ffôn: 03000253235 & 03000257726

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhan 1: Polisi Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad

1. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig: felly Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar y polisi ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru. Ar sail consensws rhyngwladol a chyngor gwyddonol annibynnol mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi o waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA¹) yn ddaearegol fel y ffordd orau a mwyaf diogel o reoli GUA yn y tymor hir. Mae'r polisi hwn wedi'i seilio ar fodlonrwydd cymuned neu gymunedau i gynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) ar gyfer GUA. Bydd gwaredu daearegol yn darparu ffordd barhaol a diogel o waredu GUA. Er y bydd yn cymryd mwy na chanrif i gwblhau'r rhaglen gwaredu, wrth wneud penderfyniadau yn awr rydym yn cymryd cyfrifoldeb am y mater hwn ac yn peidio â'i adael i genedlaethau'r dyfodol.
2. Er bod Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi ar waredu GUA yn ddaearegol, nid yw hyn yn golygu y bydd CGD yn cael ei adeiladu, o reidrwydd, yng Nghymru nac y bydd Llywodraeth Cymru'n ceisio cael adeiladu CGD yng Nghymru. Mae ein polisi yn glir: ni chaiff CGD ei adeiladu yng Nghymru ond os yw cymuned yn fodlon cynnig lleoliad iddo ac y gellir dod o hyd i safle addas a diogel.
3. Mae'r papur ymgynghori hwn yn esbonio rhagor am bolisi Llywodraeth Cymru ac yn nodi cynigion ar gyfer trefniadau i ymgysylltu â chymunedau a'r mesurau diogelu a chymorth i gymunedau a all fod yn dymuno trafod, heb ymrwymiad ymlaen llaw, y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Rydym yn gofyn am sylwadau ar y cynigion hyn.
4. Mae diogelwch a gwarchod iechyd pobl a'r amgylchedd yn hanfodol i waredu daearegol. Caiff y trefniadau i sicrhau'r rhain eu trafod yn y papur ymgynghori hwn.

Diben yr ymgynghoriad hwn

5. Mae'r papur ymgynghori hwn yn holi barn ar y trefniadau i ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru a all fod yn ystyried trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Rydym yn ceisio ymatebion ar:
 - sut y dylid nodi cymunedau a beth allai "cymuned" fod;
 - sut y dylai cymunedau gael eu cynrychioli a'u cynorthwyo yn ystod y trafodaethau;
 - sut y dylid cynnwys pobl yn y gymuned ehangach;
 - dylai awdurdodau lleol fod yn bresennol yn ystod trafodaethau;

¹) Mae gwastraff uwch ei actifedd (GUA) yn cynnwys gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolraddol a rhywfaint o wastraff lefel isel nad yw'n addas i gael ei waredu yn y storfa gwastraff lefel isel genedlaethol. Wrth gynllunio ar gyfer gwaredu daearegol rydym hefyd yn cynnwys deunyddiau niwclear (e.e. gweddillion tanwydd niwclear, wraniwm a phlwtoniwm) (bydd hwn ar ffurf sy'n addas ar gyfer gwaredu hirdymor ac mae'n bosibl y caiff ei gynnwys mewn gweddillion tanwydd niwclear neu ei wneud yn ansymudol, neu gyfuniad o'r ddau)) a all gael eu dynodi'n wastraff yn y dyfodol.

- sut y dylid gweithredu'r hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd, sef y mesurau diogelu pwysig i gymunedau; a,
- sut y dylid sicrhau dosbarthu buddsoddiad cymunedol, asesu ceisiadau am gyllid, a gallu cymunedau i ddylanwadu ar fuddsoddiad yn eu hardaloedd.

Datganiadau polisi Llywodraeth Cymru

6. Dylid darllen y papur ymgynghori hwn yng nghyd-destun datganiadau polisi cynharach Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu GUA, sy'n nodi polisi Llywodraeth Cymru ac yn cynnwys gwybodaeth am waredu daearegol a chynigion ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a all fod yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer CGD.
7. Ym mis Mai 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad polisi, sef Polisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd². Ym mis Rhagfyr 2015 cyhoeddwyd datganiad polisi arall, sef Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd yn Ddaearegol: Ymgysylltu â'r Gymuned a Phrosesau Lleoli. Cadarnhaodd y datganiadau polisi hyn y polisi mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn hirdymor gorau ar gyfer rheoli GUA³, a hefyd ein polisi mai dim ond trwy ddull seiliedig ar gydsyniad o weithio mewn partneriaeth â chymunedau a all fod yn fodlon cynnig lleoliad, y gellir gweithredu gwaredu daearegol yng Nghymru.
8. Nododd y datganiad polisi a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015 y rhesymau pam y gwnaethom fabwysiadu gwaredu daearegol a rhoddodd wybodaeth gefndir. Esboniodd y datganiad polisi fod gwaredu daearegol wedi'i dderbyn yn rhyngwladol fel y ffordd orau o reoli a gwaredu GUA ac mae'n dilyn cyngor a roddwyd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig gan y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM)⁴.
9. Mae polisi Llywodraeth Cymru ar waredu daearegol yn cwmpasu gwaredu GUA yng Nghymru. Os caiff gwastraff ei gludo i Gymru i gael ei waredu ar ôl lleoli CGD mewn cymuned sy'n fodlon ar hynny yng Nghymru, bydd yn dod o dan bolisi Llywodraeth Cymru. Os bydd gwastraff sydd wedi'i storio ar safleoedd yng Nghymru ar hyn o bryd neu sy'n deillio o Gymru, yn gadael Cymru i gael ei waredu mewn man arall yn y Deyrnas Unedig, ni fydd yn dod o dan bolisi Llywodraeth Cymru mwyach.
10. Mae gwaredu daearegol yn darparu ateb diogel a pharhaol i waddol y GUA sydd wedi cronni dros y 60 mlynedd diwethaf o ddefnyddio ymbelydredd at ddibenion

² & ³ <http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

⁴ Sefydlodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol yn 2003 i ddarparu cyngor arbenigol annibynnol ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y Deyrnas Unedig yn y dyfodol. Ym mis Gorffennaf 2006, gwnaeth y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) argymhellion ar gyfer rheoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd yn y tymor hir, wedi iddo adolygu'n annibynnol yr holl opsiynau oedd ar gael. Argymhellodd waredu daearegol, ar y cyd â'i storio'n ddiogel dros dro tra bo cyfleusterau gwaredu'n cael eu datblygu, fel yr opsiwn gorau oedd ar gael. Daeth CoRWM i'r casgliad y dylid mabwysiadu proses lle roedd cymunedau'n fodlon cymryd rhan, gan weithio mewn partneriaeth â chorff gweithredu. Yn 2013, ailddatganodd CoRWM ei argymhelliad o 2006 yn cefnogi cyfleuster gwaredu daearegol, ac y dylai fod cymuned a fyddai'n fodlon cynnig lleoliad iddo. Gellir gweld gwybodaeth am CoRWM ar: <https://www.gov.uk/government/organisations/committee-on-radioactive-waste-management>

milwrol, cynhyrchu trydan sifil, meddygol, diwydiannol ac addysgol. Mae hefyd yn darparu ffordd o waredu'r gwastraff a gaiff ei gynhyrchu gan raglen arfaethedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig o orsafoedd pŵer niwclear newydd.

11. Nid yw ffyrdd eraill o waredu gwastraff, megis ei storio ar yr wyneb o hyd, yn darparu ateb parhaol ac maent yn gadael cenedlaethau'r dyfodol i gymryd y cyfrifoldeb am reoli'r deunyddiau hyn mewn modd diogel. Nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai storio'r gwastraff ar yr wyneb o hyd yn cyflawni ein cyfrifoldeb i genedlaethau'r dyfodol nac yn bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Caiff hyn ei drafod yn fanylach yn y testun blwch ar dudalenau 12 - 14.
12. Ym mis Mawrth 2017 cyhoeddodd Radioactive Waste Management (RWM), y corff cyflawni ar gyfer gwaredu daearegol, adroddiad, sef "Review of Alternative Radioactive Waste Management Options" 5. Wedi ystyried datblygiadau yn y gwaith o reoli GUA, daeth yr adroddiad i'r casgliad, er y gallai dulliau rheoli a gwaredu amgen leihau maint y GUA y bydd angen ei waredu'n ddaearegol, y bydd angen CGD o hyd, gan na ellir, yn ymarferol, defnyddio'r dulliau eraill i waredu'r holl bethau ar y rhestr gwastraffau ymbelydrol.
13. Ni ellir lleoli CGD yng Nghymru ond os oes cymuned sy'n fodlon cynnig lleoliad iddo. At hynny, bydd hefyd angen i CGD gael cymeradwyaeth gan y rheoleiddiwr perthnasol sy'n diogelu'r amgylchedd (yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)), a chan y rheoleiddiwr diogelwch niwclear, y Swyddfa dros Reoli Niwclear. Yng Nghymru bydd hefyd angen i CGD gael cymeradwyaeth trwy system gynllunio Cymru.

Y ffyrdd presennol o reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd

14. Mae'r Deyrnas Unedig wedi cronni gwaddol 60 mlynedd o GUA, a fydd yn bodoli pa un a gaiff gorsafoedd pŵer niwclear newydd eu hadeiladu ai peidio. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi adeiladu gorsafoedd pŵer niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli eisoes yng Nghymru⁶, megis Wylfa Newydd, a fydd hefyd yn creu GUA yn ystod cyfnod eu gweithredu a'u datgomisiynu. Er y bydd angen rheoli'r gwaddol gwastraff a'r gwastraff o ddatblygiadau newydd, a'u gwaredu yn y pen draw, y gwaddol gwastraff yw'r gyfran fwyaf o bell ffordd, mwy nag 85% yn ôl cyfaint, o'r holl wastraffau sydd i'w gwaredu⁷.
15. Gall storfeydd dros dro modern a diogel ddal y gwastraff hwn yn y tymor byr a'r tymor canolig, ond mae angen i storfeydd gael ymyrraeth barhaus gan bobl i fonitro'r deunydd. Hefyd, yn y dyfodol bydd angen ail-becynnu'r gwastraff ac ailadeiladu storfeydd er mwyn sicrhau na fydd yn achosi unrhyw risg i iechyd pobl neu'r amgylchedd. Gall gwaith ail-becynnu ei hun achosi risg y bydd gweithwyr yn dod i gysylltiad ag ymbelydredd ac mae'n creu mwy o wastraff ymbelydrol i'w waredu. Bydd storfeydd ar yr wyneb yn agored i newidiadau yn yr amgylchedd naturiol a bydd hefyd angen eu gwarchod yn ddi-baid i'w cadw'n ddiogel rhag gweithgarwch maleisus. Felly mae storfeydd parhaus yn dal i olygu y bydd angen i genedlaethau'r

⁵ <https://rwm.nda.gov.uk/publication/geological-disposal-review-of-alternative-radioactive-waste-management-options/>

⁶ Llywodraeth Cymru: Ynni Cymru: newid carbon isel, 2012

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/energy/energywales/?skip=1&lang=cy>

⁷ Mae Rhestr Gwastraffau a Deunyddiau Ymbelydrol y Deyrnas Unedig (y Rhestr) yn cael ei diwedddaru bob 3 blynedd er mwyn darparu'r cofnod cenedlaethol diweddaraf o'r gwastraffau a deunyddiau ymbelydrol yn y Deyrnas Unedig. Mae adroddiad 2016 ar: <https://www.gov.uk/government/news/inventory-of-radioactive-wastes-and-materials-in-uk-updated>

dyfodol ymyrryd yn y gwaith o reoli GUA. Byddai gwaredu daearegol yn dileu'r angen hwn am ymyrraeth gan genedlaethau'r dyfodol.

16. Ar ôl cyhoeddi'r datganiad polisi ym mis Mai 2015 ymunodd Llywodraeth Cymru â rhaglen gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon i weithredu gwaredu daearegol yn y Deyrnas Unedig⁸. Mae'r rhaglen yn cael ei chyllido gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda'r bwriad o waredu'n ddaearegol yr holl ddeunydd sydd angen ei waredu yn y modd hwn. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi mynegi ffafriaeth i hyn gael ei wneud trwy un safle CGD, os oes modd, gan y gallai hyn gynnig effaith lai ar yr amgylchedd a chostau is. Bydd angen dangos y gall un safle gynnig lle i'r holl wastraffau sydd i'w gwaredu a sicrhau'r diogelwch angenrheidiol.

Ymgysylltu â chymunedau

17. Yn natganiad polisi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 cafwyd polisi amlinellol ar gyfer ymgysylltu â chymunedau; gan gynnwys trefniadau i gynorthwyo cymunedau a rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn sicrhau y gallant gymryd rhan mewn trafodaethau mewn partneriaeth. Cadarnhaodd y datganiad polisi ein bod yn ffafrio mabwysiadu trefniadau yng Nghymru i ymgysylltu â chymunedau sy'n gydnaws â'r rheiny sy'n cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig i'w defnyddio yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ar yr amod bod y trefniadau'n adlewyrchu anghenion cymunedau yng Nghymru ac anghenion Cymru yn gyfan. Nid oes rhaid i drefniadau cydnaws fod yn union yr un peth, o reidrwydd, ac rydym yn cydnabod y bydd angen i'r trefniadau a fabwysiedir yng Nghymru adlewyrchu gwahaniaethau rhwng y gwledydd.
18. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy ymgysylltu â rhanddeiliaid ym mis Ionawr 2017 i helpu i ganfod materion arbennig o berthnasol i Gymru o ran gwaredu daearegol a threfniadau i ymgysylltu â chymunedau a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad.

Gweithgor Cynrychiolaeth Gymunedol

Yn dilyn y datganiad polisi a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2015 ymaelododd Llywodraeth Cymru â'r Gweithgor Cynrychiolaeth Gymunedol (CRWG). Cynullodd Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) y Deyrnas Unedig (sydd erbyn hyn yn rhan o'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS)) y Gweithgor ym mis Mawrth 2015 i ddarparu cyngor ar y materion heriol a chymhleth a godwyd mewn perthynas â chynrychioli ac ymgysylltu â chymunedau ar safleoedd posibl CGD. Roedd y Gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a'r byd academiaidd, arbenigwyr ar gyflawni prosiectau seilwaith mawr ac ymgysylltu â chymunedau, adrannau Llywodraethol perthnasol a'r corff cyflawni ar gyfer gwaredu daearegol, Radioactive Waste Management Ltd (RWM). Cwblhaodd y Gweithgor ei waith ym mis Ebrill 2016.

Cydnawsedd â chynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig

⁸ Mae Llywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon wedi mynegi cefnogaeth o waredu daearegol fel y polisi gorau ar gyfer rheoli GUA yn y tymor hir. Polisi Llywodraeth yr Alban yw ei storio ar yr wyneb neu'n agos i'r wyneb ar neu yn agos i'r safle lle caiff y gwastraff ei gynhyrchu.

19. Mae BEIS hefyd yn ymgynghori ar yr un pryd ar ei pholisi arfaethedig ar weithio gyda chymunedau ac ar sut y dylai cymunedau gael eu cynrychioli mewn proses i leoli CGD yn Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'r cynigion yn ymgynghoriad BEIS wedi cael eu datblygu er mwyn caniatáu i gymunedau ddysgu, heb ymrwymiad, am gynnig lleoliad ar gyfer CGD gan gynnwys y broses leoli a materion megis diogelwch, hyd nes eu bod yn barnu y gallant wneud penderfyniad ynghylch ai cynnig lleoliad ar gyfer CGD yw'r opsiwn iawn i'w cymuned.
20. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried cynigion BEIS yn ofalus ac mae o'r farn eu bod yn gydnaws ag anghenion cymunedau yng Nghymru, ar yr amod bod trefniadau penodol i adlewyrchu'r amgylchiadau gwahanol yng Nghymru. Felly mae'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer ymgysylltu â chymunedau a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad yng Nghymru yn adlewyrchu'r cynigion yn y papur ymgynghori a gyhoeddwyd gan BEIS.⁹ Nid ydym wedi gwneud unrhyw benderfyniadau terfynol am y cynigion yn y papur ymgynghori hwn ac rydym yn gofyn am ymatebion amdanynt cyn mabwysiadu polisi terfynol.

Y gwastraff sydd i'w waredu

21. Bydd ar gymunedau sy'n trafod y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD angen sicrwydd ynghylch maint a mathau'r gwastraff ymbelydrol a fydd yn y CGD, a sicrwydd na fydd hyn yn newid yn sylweddol.
22. Nododd y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) (bryd hynny) Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon ym mis Gorffennaf 2014: "Implementing Geological Disposal: A framework for the long-term management of higher activity radioactive waste", ym mharagraffau 7.39 i 7.41, y mathau o wastraff a deunyddiau niwclear y gellid eu dynodi'n wastraff, a gâi eu cynnwys yn y rhestr gwastraffau i'w gwaredu¹⁰, sef:
- Gwastraff Lefel Uchel sy'n deillio o'r gwaith o ailbrosesu gweddillion tanwydd niwclear yn Sellafield;
 - Gwastraff Lefel Ganolraddol sy'n deillio o safleoedd trwyddedig niwclear sy'n bodoli eisoes, a gweithgareddau amddiffyn, meddygol, diwydiannol, ymchwil ac addysgol;
 - Y gyfran fach o Wastraff Lefel Isel nad yw'n addas i gael ei waredu yn y Storfa Gwastraff Lefel Isel genedlaethol yn Drigg yn Cumbria;
 - Gweddillion tanwydd o adweithyddion masnachol sy'n bodoli eisoes (nad ydynt wedi'u dynodi'n wastraff eto) ac adweithyddion ymchwil nad ydynt yn cael eu hailbrosesu;
 - Gweddillion tanwydd (nad ydynt wedi'u dynodi'n wastraff eto) a Gwastraff Lefel Ganolraddol o raglen datblygiadau newydd hyd at faint diffiniedig (gweler paragraff 23);
 - Stociau plwtoniwm – plwtoniwm gweddilliol nad ydynt yn cael eu hailddefnyddio i gynhyrchu tanwydd newydd (nad ydynt wedi'u dynodi'n wastraff eto);
 - Stociau wraniwm – gan gynnwys y rheiny sy'n deillio o weithgareddau cyfoethogi a gwneud tanwydd (nad ydynt wedi'u dynodi'n wastraff eto);
 - Tanwydd a deunyddiau niwclear wedi'u harbelydru (nad ydynt wedi'u dynodi'n wastraff eto) o raglen amddiffyn y Deyrnas Unedig.

⁹ <https://www.gov.uk/government/consultations/working-with-communities-implementing-geological-disposal>

¹⁰ <https://rwm.nda.gov.uk/publication/2013-derived-inventory/>

23. Nododd Papur Gwyn 2014 yn glir, pe bai'r rhestr o fathau o wastraff a deunyddiau i'w gwaredu'n ddaearogol yn newid yn sylweddol – er enghraifft, pe bai math arall o wastraff yr oedd Llywodraeth y Deyrnas Unedig eisiau ei waredu mewn CGD – y byddai angen trafod hynny a chytuno arno gyda'r gymuned oedd yn ystyried cynnig lleoliad (neu oedd wedi cytuno i gynnig lleoliad) ar gyfer CGD. Byddai angen cytuno ar broses ar gyfer cytuno ar newidiadau sylweddol i'r rhestr gwastraffau i'w gwaredu, gan gynnwys unrhyw gamau lliniaru eraill neu gyllid buddsoddi cymunedol ychwanegol, cyn i gymuned ymrwymo i gynnig lleoliad ar gyfer CGD.
24. Gyda golwg penodol ar wastraff o raglen datblygiadau newydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig, eglurodd Papur Gwyn 2014 y bydd y gwastraffau i'w gwaredu'n cynnwys maint diffiniedig o weddillion tanwydd a Gwastraff Lefel Ganolraddol o raglen datblygiadau niwclear newydd i gael eu cynnwys yn y broses lleoli CGD y bydd unrhyw gymuned sydd â diddordeb yn dechrau cymryd rhan ynddi. Nod hyn yw rhoi i gymunedau sy'n ystyried cynnig lleoliad ar gyfer CGD ddarlun mor llawn ag sy'n bosibl o'r gwastraff arfaethedig ar gyfer CGD yn eu hardal, er mwyn caniatáu iddynt wneud penderfyniad cwbl wybodus ynghylch cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster ai peidio. Uchelgais datganedig y diwydiant ar adeg y Papur Gwyn oedd cael datblygiadau niwclear newydd o 16 GigaWat trydanol. Eglurodd y Papur Gwyn nad targed gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig oedd hwn. Pe bai'r diwydiant yn cyflwyno cynlluniau ar gyfer rhagor o ddatblygiadau yn y dyfodol, byddai angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig drafod a chytuno ar waredu'r gweddillion tanwydd a Gwastraff Lefel Ganolraddol ychwanegol hyn gydag unrhyw gymunedau fyddai'n cymryd rhan yn y broses lleoli CGD, gyda golwg ar naill ai ymestyn unrhyw waith datblygu cyfleuster sy'n bodoli eisoes neu, oni cheir cytundeb gan y gymuned neu gymunedau, chwilio am gyfleusterau eraill.
25. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn ffafrio un CGD i gymryd gwastraff o Gymru, Lloegr ac o bosib Gogledd Iwerddon. Pe bai CGD yn cael ei leoli mewn cymuned fyddai'n fodlon cynnig lleoliad yng Nghymru, byddai felly'n cymryd gwastraff o bob un o'r tair gwlad.
26. Mae Atodiad 1 i ddatganiad polisi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015 yn rhoi mwy o wybodaeth am y rhestr gwastraffau i'w gwaredu.¹¹

Manteision ac anfanteision posibl cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearogol (CGD).

27. Bydd cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn cynnig manteision ac anfanteision posibl.

Manteision posibl

28. Mae CGD yn fuddsoddiad seilwaith gwerth biliynau o bunnoedd ac mae'n debyg o gael effaith drawsnewidiol ar yr economïau lleol a rhanbarthol ehangach. Yn wahanol i gyflogaeth mewn prosiectau seilwaith mawr eraill, sydd fel arfer yn cyrraedd anterth o fewn ychydig o flynyddoedd ac yna'n lleihau'n raddol, bydd yn darparu swyddi ac yn cefnogi gweithgarwch economaidd cysylltiedig yn yr ardal am fwy na 100 mlynedd. Mae RWM yn amcangyfrif y bydd CGD yn cyflogi - yn uniongyrchol - rhwng

¹¹ <http://gov.wales/docs/desh/policy/150519-policy-on-the-management-and-disposal-of-higher-activity-radioactive-waste-cy.pdf>

550 a 1,000 o weithwyr medrus ar gyflogau da trwy gydol oes gweithio'r cyfleuster, ac yn helpu i ddatblygu sgiliau lleol a'r gadwyn gyflenwi leol, sy'n debyg o ddarparu buddion hirdymor sylweddol i'r ardal leol. Bydd hyd y trafodaethau cyn y prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn cynnig i'r gymuned a allai gynnig lleoliad gyfle i ddeall sut y gall gael budd o'r swyddi a'r cyfleoedd eraill fyddai'n deillio o'r CGD o adeg gynnar yn y broses o'i ddatblygu. Byddai creu gweledigaeth gymunedol a chyllid buddsoddi cynnar hefyd yn gallu cael eu defnyddio i feithrin y gronfa sgiliau leol.

29. Gallai swyddi diogel, hirdymor o ansawdd da hefyd atgyfnerthu'r hunaniaeth ddiwylliannol leol a'r Gymraeg, er enghraifft trwy alluogi pobl ifanc i aros yn yr ardal yn hytrach na gorfod gadael i chwilio am swyddi mewn lleoedd eraill, o bosibl.
30. Gall y materion hyn gael eu trafod rhwng y gymuned ac RWM.

Buddsoddiad cymunedol

31. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ill dwy'n cydnabod y bydd cymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau am y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD yn gwneud ymrwymiad sylweddol. Gallai'r trafodaethau bara hyd at 20 mlynedd ac mae'n bosibl y bydd angen i gymunedau barhau â thrafodaethau am yr holl amser hwnnw cyn y bydd unrhyw fuddion ychwanegol o ran cyflogaeth a seilwaith ar gael. Bydd cymuned sydd wedyn yn gwneud penderfyniad mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd i gynnig lleoliad ar gyfer CGD yn gwneud ymrwymiad sylweddol iawn i dderbyn GUA o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Bydd y buddsoddiad cymunedol a fydd ar gael i gymunedau sydd mewn trafodaethau neu i gymuned sy'n cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn cydnabod yr ymrwymiad hwn.
32. Yn ystod gwaith ymgysylltu adeiladol bydd RWM yn sicrhau bod buddsoddiad cymunedol gwerth hyd at £1 miliwn y flwyddyn i bob cymuned ar gael. Pe bai RWM yn penderfynu bod gan y safle botensial i gynnig lleoliad ar gyfer CGD ac yn symud i ymchwiliadau tyllau turio, bydd y buddsoddiad cymunedol hwn yn cynyddu hyd at £2.5 miliwn y flwyddyn i bob cymuned (bydd ar ymchwiliadau tyllau turio angen trwydded amgylcheddol a chaniatâd cynllunio.)
33. Os caiff CGD ei adeiladu mewn cymuned sy'n cynnig lleoliad, yn dilyn penderfyniad cadarnhaol mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd, ac ar ôl cael cymeradwyaeth reoleiddiol a chymeradwyaeth cynllunio, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu buddsoddiad ychwanegol i'r gymuned honno. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi datgan y bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn sylweddol - yn debyg i brosiectau CGD eraill yn rhyngwladol ac â'r gallu i gynhyrchu buddion i sawl cenhedlaeth yn benodol i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad.
34. Lle'r cymunedau eu hunain fydd penderfynu ar y blaenoriaethau o ran dosbarthu'r buddsoddiad cymunedol a byddant yn cael cymorth gan RWM i'w helpu gyda hyn.
35. Caiff buddsoddiad cymunedol ei drafod yn fanylach ym mharagraffau 128 i 135.

Anfanteision posibl

36. Mae yna anfanteision posibl i gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Bydd llawer yn debyg i'r rheiny sy'n deillio o unrhyw brosiect seilwaith mawr e.e. yn ystod y cyfnod adeiladu, ac o bosibl yn ystod yr ymchwiliadau tyllau turio, mae'n bosibl y bydd rhywfaint o niwsans oddi wrth sŵn a mwy o draffig ac efallai y bydd effaith ar ansawdd yr aer. Ar

y dechrau o leiaf mae'n bosibl y bydd mewnlf gweithwyr a all effeithio ar e.e. gwasanaethau meddygol, addysgol a chymdeithasol lleol. Fodd bynnag, dylai'r cyfnod ar gyfer trafodaethau a gwaith asesu ac ymchwilio i'r safle, a all fod yn hir, roi amser i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad baratoi i fanteisio ar y cyfleoedd am swyddi. Byddai'r materion hyn yn cael sylw yn ystod y broses cymeradwyaeth cynllunio ac fel rhan o unrhyw Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol, a gyflawnir i gefnogi cais cynllunio. Hefyd bydd ar CGD angen sawl trwydded amgylcheddol yn ystod ei oes (a ddyroddir gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yng Nghymru) er mwyn sicrhau y caiff unrhyw effeithiau eu lleihau cymaint ag sy'n bosibl a'u rheoleiddio'n briodol.

37. Mae'n bosibl y bydd pryderon hefyd ynghylch yr effaith y byddai cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn ei chael ar hunaniaeth ddiwylliannol leol ac yn arbennig ar y Gymraeg. I'r gwrthwyneb mae'r rhan uchod ar fanteision yn awgrymu y gallai hunaniaeth ddiwylliannol leol a'r Gymraeg gael eu hatgyfnerthu gan gynnig lleoliad ar gyfer CGD.
38. Gall y materion hyn a mesurau lliniaru posibl hefyd gael eu trafod rhwng y gymuned a allai gynnig lleoliad ac RWM.

Materion radiolegol

39. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y gall fod pryderon am agweddau radiolegol posibl ar gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Gellir disgwyl i hyn fod yn rhan bwysig o drafodaethau rhwng y gymuned a allai gynnig lleoliad ac RWM. Os ydynt yn dal i fod yn bryderus, bydd cymunedau a allai gynnig lleoliad yn gallu cael barn trydydd partiön arbenigol yn ystod y trafodaethau. Gall cymunedau a allai gynnig lleoliad gael eu sicrhau hefyd, cyn y gellir adeiladu CGD, y bydd arno angen trwydded safle niwclear gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac yna bydd yn destun trwyddedu amgylcheddol fesul cam gan CNC (y bydd rhan ohono'n ymwneud yn benodol ag ymbelydredd). Oni fo'r rheoleiddwyr annibynnol hyn (y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac CNC) yn barnu y gellir adeiladu a gweithredu CGD mewn modd sy'n cyrraedd safonau rheoleiddiol caeth mewn perthynas â diogelwch a diogeled a gwarchod iechyd pobl a'r amgylchedd, ni fydd yn cael ei adeiladu. Bydd rheolaeth reoleiddiol gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ac CNC yn parhau trwy gydol oes gweithredu a chau CGD.
40. Bydd unrhyw effaith bosibl ar iechyd hefyd yn cael ei hystyried gan y Bwrdd Iechyd perthnasol, gyda chymorth Iechyd Cyhoeddus Cymru, fel rhan o'r broses cynllunio. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn testun blwch ar tudalen 14 isod.

Deddfwriaeth Cymru

41. Mae polisi Llywodraeth Cymru'n ddarostyngedig i ddeddfwriaeth Cymru, yn arbennig, yn y cyswllt hwn, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.
42. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i bolisi Llywodraeth Cymru ar reoli GUA yn y tymor hir. Mae angen datblygu polisi a'i roi ar waith trwy ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn yr egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae angen hefyd i bolisi gynyddu, cymaint ag sy'n bosibl, y cyfraniad at y saith nod llesiant trwy amcanion llesiant Llywodraeth Cymru. Rhoddir rhagor o fanylion isod:

Gwaredu daearegol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Dyma'r saith Nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- **Cymru lewyrchus:** Ni fydd CGD yn cael ei leoli yng Nghymru ond os bydd cynnig i roi lleoliad i CGD mewn cymuned yn gallu llwyddo mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd, ar ôl trafodaethau gydag RWM, ac os yw'r broses wedyn yn arwain at leoli CGD yn y gymuned honno. Pe bai CGD yn cael ei roi ar waith, gallai'r gymuned sy'n cynnig lleoliad a'r ardal ehangach ddisgwyl cael budd o greu swyddi hirdymor o ansawdd da a'r cyfleoedd economaidd posibl ehangach oddi wrth brosiect seilwaith hirdymor mawr. Gall anfanteision posibl sy'n nodweddiadol o unrhyw brosiect seilwaith mawr a sut y gellir eu lliniaru gael eu hystyried yn ystod trafodaethau rhwng y gymuned a allai gynnig lleoliad ac RWM, a byddant o reidrwydd yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o'r broses gynllunio.
- **Cymru gydnerth:** Gall unrhyw brosiect seilwaith mawr gael effaith amgylcheddol. Caiff effeithiau amgylcheddol eu hystyried yn ystod y broses gynllunio a hefyd eu rheoleiddio gan CNC o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016. Bydd gwaredu daearegol yn gwahanu GUA yn ddiogel o'r amgylchedd ar yr wyneb ac felly'n dileu risg effaith newid yn yr hinsawdd ac effeithiau amgylcheddol eraill ar y gwastraff. Hefyd, fel prosiect hirdymor sy'n golygu buddsoddiad mawr, byddai cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn gallu rhoi cyfleoedd i fuddsoddi er mwyn gwella a diogelu'r amgylchedd ac ecosystemau lleol. Bydd y gymuned sy'n cynnig lleoliad hefyd yn gallu penderfynu sut y caiff y buddsoddiad cymunedol ei wario, gan gynnwys ar gynorthwyo'r amgylchedd lleol.
- **Cymru iachach:** Gallai gwastraff ymbelydrol fod yn beryglus. Mae gwaredu parhaol diogel yn mynd â'r perygl posibl hwn o'r amgylchedd ar yr wyneb lle gallai digwyddiadau yn y dyfodol, gan gynnwys y gofyniad i reoli ac ail-becynnu gwastraff yn y dyfodol, achosi risg i iechyd pobl a'r amgylchedd. Caiff gwaredu daearegol ei dderbyn o gwmpas y byd fel yr opsiwn gorau ar gyfer rheoli GUA yn y tymor hir. Bydd y gwaith o reoleiddio'r agweddau diogelwch niwclear yn cael ei gyflawni gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear trwy'r drwydded safle niwclear. O ran diogelwch radiolegol, bydd CNC a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear yn rheoleiddio unrhyw CGD er mwyn sicrhau ei ddiogelwch a'i ddiogeledd a gwarchod iechyd pobl a'r amgylchedd.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal:** Byddai cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn rhoi cyfleoedd i gael swyddi hirdymor da a'r ddarpariaeth addysgol well y bydd y rhain yn ei hybu. Byddai cyfleoedd a godai yn yr economi ehangach, a gwelliannau posibl i'r amgylchedd lleol oddi wrth fuddsoddi cymunedol, hefyd yn creu cyfleoedd i leihau anghydraddoldeb yn y gymuned sy'n cynnig lleoliad a'r ardal ehangach.
- **Cymru o gymunedau cydlynus:** Ni ellir lleoli CGD yng Nghymru ond os oes cymuned sy'n fodlon cynnig lleoliad iddo. Gallai'r trafodaethau rhwng y gymuned a allai gynnig lleoliad ac RWM bara 15 i 20 mlynedd, ac yn ystod y cyfnod hwn rhaid dangos bod y gymuned ehangach wedi cael ei chynnwys. Bydd y cyfnod trafod yn caniatáu i'r gymuned a allai gynnig lleoliad ystyried ei blaenoriaethau o ran buddsoddiad cymunedol a chyfleoedd eraill.

Ar ddiwedd y trafodaethau, a chyn y gellir adeiladu unrhyw CGD, bydd y gymuned yn cael y cyfle i gadarnhau neu wrthod cynnig lleoliad ar gyfer yr CGD mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu:** Byddai cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn rhoi i bobl ifanc yn arbennig y posibilrwydd o gael swyddi diogel hirdymor yn eu cymuned eu hunain, yn hytrach na gorfod gadael i chwilio am swyddi mewn lleoedd eraill, o bosibl. Felly, yn y tymor hirach pe bai CGD yn cael ei leoli mewn ardal sy'n Gymraeg ei hiaith yn bennaf, mae hyn yn debyg o atgyfnerthu'r Gymraeg yn y gymuned honno.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang:** Derbynnir gwaredu daearegol gan lywodraethau o gwmpas y byd fel y ffordd orau a mwyaf diogel o reoli GUA yn y tymor hir. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi i waredu GUA yn ddaearegol, mewn partneriaeth â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon. Mae mabwysiadu polisi gwaredu daearegol yn caniatáu i'r
 - genhedlaeth hon wneud penderfyniadau ynghylch gwaredu GUA yn hytrach na throsglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i genedlaethau'r dyfodol.

Dyma'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- **Hirdymor:** Mae gwaredu daearegol yn darparu ar gyfer rheoli GUA yn ddiogel yn y tymor hir. Fel y dywedir uchod, mae cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn cynnig manteision hirdymor posibl i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad.
- **Atal:** Mae paragraff ** yn nodi y gall storfeydd ar yr wyneb ddal GUA yn ddiogel yn y tymor byr i'r tymor canolig. Fodd bynnag, mae ei storio fel hyn yn barhaus yn galw am ragor o ymyrraeth gyda'r angen i ail-becynnu'r gwastraff ar ryw adeg yn y dyfodol, sy'n achosi risg y bydd gweithwyr yn dod i gysylltiad ag ef. Hefyd nid yw storio gwastraff ar yr wyneb yn barhaus yn dileu risgiau yn y tymor hirach i gyfanrwydd cyfleusterau ar yr wyneb oddi wrth ddigwyddiadau amgylcheddol, megis y newid yn yr hinsawdd, neu risgiau posibl yn y dyfodol oddi wrth chwalfa gymdeithasol neu ryfel.
- **Integreiddio:** Mae'r dadansoddiad uchod yn nodi bod gan waredu daearegol gyfraniad i'w wneud at bob un o'r saith Nod Llesiant.
- □ **Cydweithio:** Bydd y broses leoli'n dibynnu ar gydweithredu rhwng RWM a chymunedau a allai gynnig lleoliad. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio gweithio gyda chymunedau a allai gynnig lleoliad yng Nghymru, a gydag RWM. At hynny, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon i sicrhau opsiwn ar gyfer gwaredu GUA yn ddiogel yn y tymor hir.
- **Cynnwys:** Ni ellir gwaredu gwastraff yn ddaearegol yng Nghymru ond os oes cymuned sy'n fodlon cynnig lleoliad ar gyfer CGD. Bydd angen i bartïon â diddordeb sy'n ceisio cynnal trafodaethau gydag RWM gyhoeddi eu diddordeb cyn y gall trafodaethau fynd ymlaen i gam Ymgysylltu Ffurfiannol. Bydd angen i'r prosesau i fwrw ymlaen â thrafodaethau trwy Ymgysylltu Ffurfiannol ac Ymgysylltu Adeiladol sicrhau bod gwybodaeth am y prosiect ar gael i'r cyhoedd a bod ymatebion yn cael au darparu i unrhyw bryderon a godir. Bydd y gofyniad am brawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn y gellir rhoi CGD ar waith hefyd yn golygu y bydd angen i'r gymuned a allai gynnig lleoliad dderbyn CGD yn eglur.

Deddf Cynllunio 2015

Mater datganoledig yw cynllunio a byddai unrhyw CGD yng Nghymru'n ddarostyngedig i'r system gynllunio yng Nghymru. Rhoddir sylw i hyn yn y blwch testun isod. Bydd angen cymeradwyaeth cynllunio yn ogystal â thrwydded amgylcheddol a thrwydded safle niwclear.

Mae'r trefniadau cynllunio yng Nghymru'n wahanol i'r rhai yn Lloegr, a bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r materion cynllunio sy'n effeithio ar y posibilrwydd o leoli CGD yng Nghymru. Mae'r cyfrifoldeb cynllunio am benderfynu ar geisiadau am CGD wedi'i ddatganoli a'r prif offeryn deddfwriaeth cynllunio sy'n llywodraethu'r drefn caniatadau ar gyfer CGD yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Yn Lloegr Deddf Cynllunio 2008 yw hi. Nid yw hyn yn effeithio ar safbwynt Llywodraeth Cymru mai dim ond ar sail partneriaeth wirfoddol â chymuned neu gymunedau sy'n barod i gynnig lleoliad y gellir gweithredu gwaredu daearegol.

Darperir y fframwaith polisi cynllunio cyffredinol yng Nghymru gan *Bolisi Cynllunio Cymru/Polisi Cynllunio Mwynau Cymru* a gwahanol *Nodiadau Cyngor Technegol* a *Nodiadau Cyngor Cynllunio Mwynau*. Gyda'i gilydd maent yn gosod y cyd-destun ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu ac ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â phob math o gynnig datblygu.

Cyflwynodd Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 fframwaith modern ar gyfer darparu gwasanaethau cynllunio yng Nghymru, gan gynnwys yr egwyddor o gategori newydd o ddatblygiad ar gyfer y ceisiadau cynllunio datganoledig mwyaf a mwyaf cymhleth yn dechnegol lle y byddai Gweinidogion Cymru yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Yn y dyfodol bydd angen o hyd am fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol ategol, sy'n addas i'r diben. Bydd unrhyw gynnwys polisi newydd sy'n ymwneud â gwaredu daearegol yn ddarostyngedig i ymgynghoriad llawn.

Yr enw ar y categori newydd o ddatblygiad i'r ceisiadau cynllunio seilwaith mwyaf yng Nghymru yw "datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol" (DAC). Rhagwelir y byddir yn gwerthuso'r proses DAC yn gyfnodol. Bydd y gwaith gwerthuso hwn yn cynnwys adolygu'n rheolaidd y prosiectau sy'n cymhwyso fel DAC a'r trothwyon perthnasol a all fod yn gymwys.

Mae Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir mai dim ond ar sail cyfranogiad parod mewn trafodaethau gan gymuned neu gymunedau a allai gynnig lleoliad, dod â'r trafodaethau hynny i ben yn llwyddiannus a chael canlyniad cadarnhaol mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd y gall gwaredu daearegol fynd rhagddo yng Nghymru. Gall y trafodaethau bara am 15 i 20 mlynedd ac mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig y byddai cais cynllunio am CGD ond yn cael ei wneud ar ôl y prawf o gefnogaeth y cyhoedd.

(Byddai ceisiadau am gymeradwyaeth cynllunio am dyllau turio ymchwilio yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod y trafodaethau a byddent yn ddarostyngedig i ymgynghoriad cyhoeddus.)

Mae'r polisi ar gymhwyso'r gyfundrefn gynllunio i waredu daearegol yng Nghymru wrthi'n cael ei ddatblygu. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn bwysig bod yn eglur ar y cam hwn, i gymunedau yng Nghymru a all fod yn ystyried cynnal trafodaethau ar y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, ac i awdurdodau cynllunio lleol, ynghylch sut y gellir cymhwyso'r gyfundrefn gynllunio at CGD.

Mae'n eglur i Lywodraeth Cymru, pe bai CGD yn cael ei leoli yng Nghymru, y byddai'n ddatblygiad mawr a fyddai'n derbyn a gwaredu GUA o Gymru, Lloegr ac o bosib Gogledd Iwerddon. Hefyd gallai CGD fod yn weithredol am fwy na chanrif. Felly mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai CGD yn brosiect mawr ac y byddai angen, o bosibl, ei ystyried yn DAC. Ni fydd Llywodraeth Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniadau am hyn hyd nes ei bod

wedi cyflwyno cynigion penodol a manwl i ymgynghori arnynt, ac wedyn wedi ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad hwnnw. Ni fydd unrhyw gynigion cynllunio yn effeithio ar hawl cymunedau i dynnu'n ôl o drafodaethau ar unrhyw adeg hyd at y prawf o gefnogaeth y cyhoedd.

Sicrhau gwaredu daearegol

Cynllunio ac iechyd y cyhoedd

Mae cyfrifoldeb statudol ar Fyrddau Iechyd am iechyd a lles y boblogaeth maent yn ei gwasanaethu. At hynny, maent yn ymgynghoreion mewn gwahanol feysydd gan gynnwys y broses ceisiadau cynllunio. Ar hyn o bryd mae Byrddau Iechyd wedi'u dynodi gan Lywodraeth Cymru'n ymgynghoreion statudol, sy'n golygu y dylid ymgynghori â hwy ar geisiadau cynllunio perthnasol.

I gynorthwyo Byrddau Iechyd i gyflawni eu cyfrifoldeb o ran iechyd yr amgylchedd, darperir gwasanaethau trwy fodel cydweithredu rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chanolfan Peryglon Pelydriad, Cemegol ac Amgylcheddol (CRCE) Cymru o eiddo Public Health England. Iechyd Cyhoeddus Cymru yw'r asiantaeth arweiniol ac mae'n darparu i asiantaethau partner a'r cyhoedd gyngor a chymorth arbenigol annibynnol er mwyn lleihau, cymaint ag sy'n bosibl, dod i gysylltiad â pheryglon amgylcheddol ac effeithiau ar iechyd oddi wrthynt. Mae CRCE Cymru yn cynorthwyo Iechyd Cyhoeddus Cymru trwy ddarparu cyngor technegol arbenigol ar gemegolion, pelydriad a pheryglon amgylcheddol eraill a thrwy ddarparu dolen gyswllt i arbenigedd ehangach sydd ar gael yn Public Health England. Yr enw ar y gwasanaeth ar y cyd hwn yw'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru.

Fel rhan o'r broses ymgynghori (boed ar gyfer DAC ai peidio) mae'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru yn darparu asesiadau risg o ran iechyd y cyhoedd sy'n cynorthwyo yn y broses gynllunio.

43. Bydd gwaredu GUA yn ddaearegol yn cael ei sicrhau gan RWM, a fydd yn gyfrifol am weithio gyda chymunedau a allai gynnig lleoliad ac am werthuso addasrwydd safleoedd.
44. Bydd cymunedau sy'n dymuno dechrau trafodaethau gyda RWM yn cael amser i ystyried yr opsiynau gan drafod gydag RWM. Gan ddibynnu ar ffactorau fel y ddaeareg leol a chynnydd gyda'r gymuned, gallai trafodaethau gymryd cyhyd â 15 i 20 mlynedd tra bo RWM yn gwerthuso a all ardal benodol gynnig safle sy'n addas i leoli CGD arno. Mewn rhai ardaloedd mae'n bosibl y bydd y gwaith hwn o asesu ac ymchwilio i safle yn cymryd llai o amser. Fodd bynnag, bydd ar gymunedau angen cyfnod priodol o amser i ystyried y materion cysylltiedig a dod yn gyfforddus â hwy. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd y gymuned ac RWM yn gallu tynnu'n ôl o'r trafodaethau ar unrhyw adeg a bydd y broses leoli yn y gymuned honno yn dod i ben (trafodir hyn yn llawnach ym mharagraffau 136 i 139). Bydd y gwaith o asesu ac ymchwilio i safle yn cynnwys tyllau turio ymchwilio, y bydd angen trwydded amgylcheddol gan CNC a chymeradwyaeth cynllunio ar eu cyfer. Tua diwedd y broses, bydd gan RWM ddigon o wybodaeth am safle arfaethedig i baratoi achosion

diogelwch ar gyfer cais i'r Swyddfa dros Reoli Niwclear am drwydded safle niwclear, ac i CNC am drwydded amgylcheddol. Bydd RWM hefyd yn gallu gwneud cais am gymeradwyaeth cynllunio. Cyn i'r ceisiadau hyn gael eu cyflwyno, bydd y gymuned a allai gynnig lleoliad yn cymryd rhan mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd (a drafodir yn llawnach ym mharagraffau 147 i 152).

45. Os yw'r ymateb i'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn negyddol, bydd y broses leoli yn y gymuned honno yn dod i ben. Os yw'r canlyniad yn gadarnhaol, bydd RWM yn gallu cyflwyno cais am gymeradwyaeth cynllunio (a fydd ei hun yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus) a gwneud cais am gymeradwyaeth gan reoleiddwyr. Ar yr amod bod yr achosion diogelwch yn dderbyniol i'r rheoleiddwyr, ac y rhoddir cymeradwyaeth cynllunio i'r CGD, byddai RWM wedyn yn gallu bwrw ymlaen â'r gwaith tan ddaear ar gyfer CGD. Ar ôl canlyniad cadarnhaol mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd ni fydd gan y gymuned hawl mwyach i dynnu'n ôl o'r broses o leoli CGD. Nod hyn yw diogelu'r symiau sylweddol o arian cyhoeddus fydd yn cael eu buddsoddi gan RWM o'r adeg hon ymlaen i sicrhau CGD. Fel y nodwyd yn gynharach, bydd yn rhaid o hyd mynd drwy'r holl brosesau cynllunio a rheoleiddiol statudol sy'n bodoli eisoes ym maes defnydd tir er mwyn adeiladu a gweithredu CGD, gan gynnwys rhagor o waith ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, gan ddarparu ar gyfer rhagor o gyfraniad gan y gymuned i benderfyniadau ar y datblygiad arfaethedig.
46. Mae diogelwch a gwarchod iechyd pobl a'r amgylchedd yn sylfaenol i waredu daearegol. Yn ystod camau adeiladu, comisiynu, gweithredu a chau'r CGD, bydd diogelwch yr holl weithwyr a'r gymuned a'r gwaith o warchod iechyd pobl a'r amgylchedd yn cael eu monitro a'u rheoleiddio gan y rheoleiddiwr diogelwch niwclear, y Swyddfa dros Reoli Niwclear, a chan CNC, rheoleiddiwr diogelu'r amgylchedd yng Nghymru.
47. Bydd gwaith ymchwilio o dan y ddaear yn dal i fod yn sylfaen i'r achos diogelwch a hyd yn oed ar ôl i'r gwaith adeiladu ddechrau, bydd ar RWM angen cymeradwyaeth benodol o dan y drwydded safle niwclear a'r drwydded amgylcheddol cyn y gellir gosod gwastraff. Unwaith y bydd yn weithredol, bydd y gwaith o adeiladu'r cyfleuster yn parhau ochr yn ochr â'r gwaith o osod gwastraff; bydd twneli a daeargelloedd newydd yn cael eu hadeiladu i dderbyn gwastraff wrth i'r twneli a daeargelloedd sy'n bodoli eisoes gael eu llenwi.

Ymarfer sgrinio daearegol

48. Yn 2014 cyhoeddodd DECC (BEIS erbyn hyn) Bapur Gwyn Implementing Geological Disposal¹². Ers y Papur Gwyn hwnnw, mae RWM wedi cyflawni ymarfer sgrinio daearegol cenedlaethol¹³ i ddwyn ynghyd y wybodaeth sy'n bodoli eisoes am agweddau hysbys ar ddaear ar raddfa genedlaethol sy'n berthnasol i ddiogelwch hirdymor CGD. Bydd canlyniadau hwn ar gael ar ffurf hygyrch, gan ddarparu gwybodaeth awdurdodol y gellir ei defnyddio mewn trafodaethau cynnar gyda chymunedau am eu potensial daearegol i gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Fodd bynnag, nid oes gwybodaeth fanwl am y ddaear ar y dyfnderoedd y disgwylir i CGD gael ei adeiladu ar gael i'r rhan fwyaf o ardaloedd. Felly mae'n bosibl na fydd y wybodaeth sgrinio daearegol yn gallu cynnwys neu ddiystyru pob ardal ar unwaith, ond bydd yn cynnig sylfaen i drafodaethau hyd nes y daw ymchwiliadau lleol manylach i law.

¹² <https://www.gov.uk/government/publications/implementing-geological-disposal>

¹³ Gweler Adran 3 o <https://www.gov.uk/government/publications/national-geological-screening-guidance/national-geological-screening-guidance>

49. Er nad oedd darpariaethau Papur Gwyn 2014 DECC yn cynnwys Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai'r ymarfer sgrinio daearegol gynnwys Cymru er mwyn galluogi cymunedau yma i gael y wybodaeth hon.

Rhan 2: Gweithio gyda chymunedau

Cyflwyniad

50. Mae polisi Llywodraeth Cymru'n glir:


- Ni ellir bwrw ymlaen â gwaredu daearegol yng Nghymru ond os oes cymuned neu gymunedau sy'n fodlon cynnig lleoliad.
- Er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus, bydd angen i bartïon â diddordeb allu cyrchu gwybodaeth i'w galluogi i benderfynu gofyn am drafodaethau ai peidio.
- Bydd ar bartïon â diddordeb angen eglurder ynghylch sut i ofyn am drafodaethau, heb ymrwymiad ymlaen llaw, gyda'r corff cyflawni, RWM.
- Bydd angen i bartïon â diddordeb, ynghyd ag RWM, sicrhau bod pobl yn y gymuned yn ehangach, a'r awdurdodu lleol perthnasol, yn gwybod am drafodaethau ynghylch y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, a'u bod yn cymryd rhan ynddynt.
- Yn ystod trafodaethau, bydd angen i gymunedau allu cael gwybodaeth sy'n cael ei diwedddaru'n rheolaidd ac atebion i gwestiynau.
- Bydd angen hefyd i gymunedau gael eglurder ynghylch yr hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd.

51. Mae'r papur ymgynghori hwn yn gofyn am ymatebion ar gynigion ar gyfer gweithio ac ymgysylltu i ddechrau â phartïon â diddordeb a, maes o law, â chymunedau a allai gynnig lleoliad yn ystod y broses leoli. Bydd partïon â diddordeb a chymunedau'n gallu dechrau trafod gydag RWM heb ymrwymiad. Mae'r rhan hon o'r papur ymgynghori yn esbonio'r mesurau diogelu sydd ar gael i gymunedau yn ystod trafodaethau gyda'r corff cyflawni, RWM.

52. Mae'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn yn adlewyrchu ffyrdd arfaethedig o ymgysylltu â chymunedau a nodir ym mhapur ymgynghori BEIS¹⁴. Bwriad hyn yw sicrhau trefniadau cydnaws â'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu gan BEIS yn Lloegr [a Gogledd Iwerddon], ac ymagwedd deg. Yn y papur ymgynghori hwn rydym yn gofyn am sylwadau ar ba mor addas yw'r cynigion hyn ar gyfer ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru.

53. Mae Ffigwr 1 yn crynhoi'r broses o ymgysylltu â chymunedau a'r polisi ar weithio gyda chymunedau ynghyd ag amserlenni posibl. Enghreifftiol yw'r amserlenni ac maent yn debyg o amrywio gan ddibynnu ar natur unrhyw safle penodol. At hynny, bydd cymunedau eisiau gwneud cynnydd ar gyflymder maent yn gyfforddus ag ef, a gall hwn amrywio rhwng cymunedau.

¹⁴ <https://www.gov.uk/government/consultations/working-with-communities-implementing-geological-disposal>



Ffigwr 1: Crynodeb o'r trefniadau arfaethedig ar gyfer ymgysylltu â chymunedau yn y broses leoli gyffredinol.

Trafodaethau cychwynnol ac ymgysylltu ffurfiannol

Nodi cymunedau

Bydd y broses leoli yng Nghymru yn cael ei seilio ar drafodaethau agored rhwng RWM a chymunedau a allai gynnig lleoliad. Mae angen i gymuned, ar yr amser iawn, i gael eu nodi er mwyn cytuno ar y gynrychiolaeth briodol, gan gynnwys gan yr awdurdodau lleol perthnasol¹⁵, os ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r broses. Mae'r term "nodi cymunedau" yn cyfeirio at y broses y bydd RWM yn ei defnyddio ar ôl i bartïon â diddordeb (unigolion neu sefydliadau) gysylltu ag ef, ac ar ôl i'r cyswllt cychwynnol hwnnw gael ei gyhoeddi, i weld a ellir diffinio cymuned a allai fod â diddordeb a thrafod gyda hi mewn modd adeiladol. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau dull teg a thryloyw o gynrychioli cymunedau; ymgysylltu ag RWM; dosbarthu cyllid buddsoddi cymunedol; ac er yr hawl i dynnu'n ôl o'r broses leoli a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd.

54. Mae dod o hyd i leoliad addas ar gyfer CGD yn debyg o gymryd rhai blynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwnnw bydd angen i RWM weithio gyda chymunedau i feithrin

¹⁵ Y prif awdurdodau lleol yng Nghymru yw'r cyngorau sir a'r cyngorau bwrdeistref sirol, y cyfeirir atynt yn y papur ymgynghori hwn fel awdurdodau lleol. .

ymddiriedaeth a dealltwriaeth cyn y bydd yn ofynnol cael unrhyw ymrwymiad i gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

55. Mae pob cymuned yn wahanol, ac felly mae'r cynigion yn y papur ymgynghori hwn wedi'u bwriadu i fod yn hyblyg ac i ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau rhwng cymunedau, ac ar yr un pryd darparu fframwaith cyson ar gyfer trafodaethau rhwng cymunedau ac RWM, a hefyd caniatáu trefniadau sy'n gydnaws â'r rhai sy'n cael eu mabwysiadu gan BEIS yn Lloegr [a Gogledd Iwerddon,] ac ymagwedd deg rhwng cymunedau mewn trafodaethau gydag RWM lle bynnag y bônt. Bydd RWM yn defnyddio'r prosesau a ddatblygir yng ngoleuni'r ymgynghoriad hwn i ddatblygu cyfarwyddyd ar sut y bydd yn gweithio gyda chymunedau yn ystod y broses leoli. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gydag RWM, er budd cymunedau, er mwyn sicrhau y caiff y gwahaniaethau rhwng Cymru a Lloegr, gan gynnwys y Gymraeg, eu cyfleu a'u hadlewyrchu yng ngwaith RWM wrth iddo ymgysylltu ag unrhyw gymunedau a allai gynnig lleoliad yng Nghymru.
56. RWM fydd yn penderfynu a yw cyswllt cychwynnol yn cynnig sail ymarferol i fwrw ymlaen â thrafodaethau. Bydd RWM eisiau cael ei sicrhau y gall y partïon â diddordeb sy'n cysylltu gael cefnogaeth yn y gymuned ehangach, a bydd eisiau cynorthwyo'r partïon â diddordeb i gynnwys pobl yn ehangach. Bydd RWM hefyd eisiau cael ei sicrhau bod gan yr ardal a ystyrir y potensial i safle addas gael ei ganfod. Bydd hyn yn cynnwys asesiad cychwynnol, wedi'i seilio ar y wybodaeth sydd ar gael, o'r nodweddion daearegol lleol. Bydd y trafodaethau ac asesiadau lleol cychwynnol hyn yn helpu i nodi'r gymuned a allai gynnig lleoliad ac yn arwain a chyfrannu at 'ymgysylltu ffurfiannol'.

Partïon â diddordeb

57. Partïon â diddordeb yw'r bobl sy'n cysylltu ag RWM i ddechrau gan ofyn am wybodaeth am waredu daearegol.
58. Bydd gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer gweithio gydag RWM ar gael i gymunedau ac awdurdodau lleol yng Nghymru, ac i grwpiau cymunedol a grwpiau busnes, yn ogystal ag yn ehangach e.e. ar y we ac o bosibl trwy ddefnyddio manau cymunedol, megis llyfrgelloedd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys manylion am sut i gysylltu ag RWM.
59. Gwlad â chymunedau amrywiol yw Cymru, ac mae nifer o wahanol ffyrdd gan bobl o uniaethu gydag ardaloedd, neu ddiffinio eu hunain o fewn yr ardaloedd hynny. Mae Llywodraeth Cymru eisiau bod yn gyfarwyddol ynghylch y bobl neu bartïon â diddordeb a fydd, o bosibl, eisiau dechrau trafod gydag RWM. Gallai amrywiaeth o gyrff ofyn am drafodaethau, megis cyngor sir, cyngor cymuned, tîrfeddiannwr, grŵp cymunedol neu grŵp lleol o fusnesau. Gallai amrywiaeth o bartïon â diddordeb neu grwpiau o gyrff gyda'i gilydd gymryd rhan mewn trafodaethau cychwynnol gydag RWM am y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Bydd felly'n bwysig dod o hyd i ddull clir, hyblyg, sy'n adlewyrchu natur hirdymor y broses leoli, ac sy'n cynrychioli grwpiau neu sefydliadau yn briodol, yn ehangach o fewn y gymuned, gan gynnwys awdurdodau lleol os ydynt yn dymuno bod yn rhan o'r broses. Y nod wrth weithio gyda cymunedau yw, yn ystod trafodaethau, bod y corff cyflenwi yn atebol iddynt, gan roi'r holl wybodaeth sydd ei hangen ar gymunedau a gan wrando ac ymateb i safbwyntiau a phryderon mewn dull agored, gan ymateb iddynt. Dylid hysbysu'r awdurdodau lleol perthnasol o'r broses a'u gwahodd i gymryd rhan yn y trafodaethau os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Mae'n bosibl y bydd y

trafodaethau hyn yn arwain yn raddol at nodi cymuned a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad.

60. Ar yr adeg hon nid oes angen i bartïon â diddordeb gyhoeddi eu diddordeb na ffurfio unrhyw grwpiau strwythuredig. Nod y trafodaethau cychwynnol hyn yw eu galluogi i gael gwybod rhagor ac mae'n bosibl na fydd rhai trafodaethau'n mynd ymhellach na gofyn am wybodaeth. Mewn achosion eraill, gallai'r parti â diddordeb farnu ei bod yn werth cynnal trafodaeth ehangach yn y gymuned.
61. Os nad yw'r parti â diddordeb yn awdurdod lleol neu'n strwythur ffurfiol sy'n cynnwys awdurdodau lleol, fel Partneriaeth Menter Leol, yna cynigir y dylai'r parti â diddordeb ac RWM roi gwybod i'r awdurdodau lleol perthnasol, os nad ydynt yn dewis i beidio â bod yn rhan o'r broses a'u bod yn fodlon i drafodaethau symud ymlaen at gysylltiad ffurfiannol heb iddynt fod yn rhan o hynny.

Ymgysylltu ffurfiannol

62. Er mwyn sicrhau sgwrs agored, dryloyw ac eang, wrth i'r broses leoli fynd rhagddi, bydd angen i bartïon â diddordeb gyhoeddi eu diddordeb yn y broses o leoli CGD ac agor y drafodaeth yn eu cymuned. Ymgysylltu ffurfiannol yw dechrau'r broses leoli ffurfiol ac felly bydd yn dechrau pan fydd y partiion â diddordeb yn trafod eu diddordeb yn gyhoeddus. Ar hyn o bryd dylid hysbysu awdurdodau lleol a'u cynnwys, os nad ydynt yn fodlon i gysylltiad ffurfiannol ddigwydd heb iddynt fod yn rhan ohono.
63. Er mwyn hwyluso trafodaethau cyhoeddus a helpu cymunedau i siapio eu rôl yn y trafodaethau cynnar hyn, bydd RWM yn darparu cyllid ymgysylltu i dalu costau gweithgareddau ymgysylltu cymunedol, trafodaethau cyhoeddus a gwaith casglu a chyfnewid gwybodaeth, ac i alluogi cael cymorth annibynnol (gweler paragraff 72 ymlaen).
64. Bydd RWM yn darparu canllawiau pellach ar gysylltiad ffurfiannol, gan adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau cymunedau amrywiol; bydd cymunedau gwledig, ar wasgar er enghraifft yn wynebu heriau gwahanol i'r heriau mewn amgylchedd mwy trefol. Er mwyn cynorthwyo â'r broses hon, gellid sefydlu tîm ymgysylltu ffurfiannol, gan gynnwys aelodau o'r gymuned sydd â diddordeb, RWM, yr awdurdod lleol perthnasol (os yw'n dewis cymryd rhan), cynrychiolwyr y cyngor cymuned (os yw'n dewis cymryd rhan) a chadeirydd a hwyluswyr annibynnol (er mwyn sicrhau trafodaethau priodol a fydd yn gwneud cynnydd).
65. Bydd ymgysylltu ffurfiannol yn ei gwneud yn bosibl canfod aelodau o'r gymuned sydd â diddordeb mewn gweithio mewn partneriaeth ag RWM, a dechrau casglu gwybodaeth sylfaenol am y gymuned. Bydd hyn yn caniatáu i RWM ddechrau deall y boblogaeth leol ac unrhyw broblemau neu bryderon sydd gan y gymuned, ac ystyried a oes rhagolygon o leoli CGD yn yr ardal. Mae pob cymuned yn wahanol, ac felly bydd angen i'r ymagwedd fod yn hyblyg. Lle'r bobl yn yr ardaloedd hynny fydd canfod y rhai a ddylai gymryd rhan, ar sail sgiliau, diddordebau a gallu.
66. Yn ystod ymgysylltu ffurfiannol, bydd RWM yn cynorthwyo'r partiion â diddordeb i helpu i ddatblygu strwythur cynhwysol i'w alluogi i gynnwys y gymuned ehangach mewn trafodaethau. Bydd yn bwysig meithrin ymddiriedaeth yn ystod cyfnod cynnar y gwaith ymgysylltu a chasglu gwybodaeth, ac mae'n bosibl y byddai cymorth annibynnol yn helpu hyn. Gallai tîm 'cysylltiad ffurfiannol' helpu i fagu hyder yn y broses o ymgysylltu â'r gymuned. Byddai'r tîm hwn yn gyfrifol am ddarparu y

drafodaeth â rhanddeiliaid, gan weithio gyda'r gymuned/au yn yr "Ardal Chwilio" (gweler paragraffau 77 i 80) i roi gwybodaeth at ei gilydd, gan gynnwys nodi:

- y gwahanol randdeiliaid;
- pryderon penodol y gymuned;
- pwy allai fod yn aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol (gweler paragraff XXX) a'r broses o'u penodi a;
- ffiniau posibl y gymuned er mwyn sefydlu'r Ardal Chwilio.

67. Yn ystod ymgysylltu ffurfiannol, bydd gan y partïon â diddordeb hawl i dynnu'n ôl o drafodaethau ar unrhyw adeg.

Tîm ymgysylltu ffurfiannol

Tabl 1. Cymryd rhan mewn trafodaethau cychwynnol – y tîm ymgysylltu ffurfiannol

Aelod	Rôl
Cadeirydd annibynnol	Gallai rhywun i gyflawni'r rôl hon gael ei gaffael o restr gymeradwy o gontractwyr, a'i gyllido gan RWM ar ran y partïon â diddordeb, neu mae'n bosibl y bydd strwythurau sefydliadau cymunedol y gellid eu defnyddio yn bodoli eisoes yn yr ardal. Bydd y Cadeirydd yn sicrhau y caiff cyfarfodydd a thrafodaethau eu cynnal mewn modd priodol.
Hwyluswyr annibynnol	Efallai y bydd o fudd defnyddio hwyluswyr annibynnol er mwyn sicrhau bod y trafodaethau'n mynd rhagddynt mewn modd adeiladol a'u bod yn darparu gwybodaeth. Gallai'r hwyluswyr gynorthwyo trwy ofyn cwestiynau perthnasol a hybu sgwrs i ymdrin â'r pwyntiau o ddiddordeb oddi wrth y partïon â diddordeb ac aelodau eraill o'r gymuned. Er mwyn meithrin ymddiriedaeth byddant yn cael eu penodi trwy gonsensws rhwng y partïon â diddordeb ac RWM. Byddent yn cael eu cyllido gan RWM ac yn gweithio gyda'r cadeirydd annibynnol.
Partïon â diddordeb	Y rhain yw'r grŵp neu'r unigolyn/unigolion sy'n dechrau'r trafodaethau cyntaf gydag RWM.
RWM	Y corff cyflawni sy'n ymgysylltu â'r gymuned, gan ddarparu gwybodaeth yn ôl yr angen, a chasglu ei wybodaeth ei hun am y gymuned ac ardaloedd lle mae posibilrwydd cael lleoliad.
Awdurdodau lleol perthnasol	Mae'n bosibl mai awdurdod lleol yw'r parti â diddordeb. Os nage, dylid rhoi gwybod iddo am y trafodaethau a'i wahodd i ymuno â hwy os yw eisiau. Os ydynt yn dewis peidio â chymryd rhan yn y tîm cysylltiad ffurfiannol, dylent gael eu hysbysu o'r broses a'i gwneud yn glir eu bod yn fodlon i'r tîm ymgysylltu ffurfiannol barhau heb iddynt fod yn rhan ohono. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arno i gymryd rhan ar y cam hwn, ac mae'n bosibl y bydd eisiau aros i gymryd rhan yn ddiweddarach yn y broses pan fydd mwy o wybodaeth ar gael i'w hystyried.

Cynghorau cymuned perthnasol ¹⁶	Nid oes cyngor cymuned gan bob ardal cyngor cymuned. Lle mae un mae'n bosibl mai'r cyngor cymuned yw'r parti â diddordeb. Os nage, dylid rhoi gwybod iddo am y trafodaethau a'i wahodd i ymuno â hwy os yw eisiau. Nid oes unrhyw rwyngedigaeth arno i gymryd rhan ar y cam hwn, ac mae'n bosibl y bydd eisiau aros i gymryd rhan yn ddiweddarach yn y broses pan fydd mwy o wybodaeth ar gael i'w hystyried. Mewn rhai achosion mae'n bosibl bod mwy nag un cyngor cymuned yn bodoli yn yr ardal chwilio neu ardal y gymuned a allai gynnig lleoliad; lle pob cyngor cymuned yw penderfynu a yw eisiau cymryd rhan mewn trafodaethau. Lle mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn cynnwys mwy nag un ardal cyngor cymuned, mae'n bosibl y bydd angen i'r cynghorau cymuned perthnasol gytuno ar gynrychiolaeth ar y cyd er mwyn sicrhau cydbwysedd buddiannau yn y tîm ymgysylltu ffurfiannol.
Partneriaethau menter lleol	Gall partneriaethau menter lleol helpu gyda cwestiynau ar effaithiau'r seilwaith ar flaenoriaethau yr economi leol ac o bosibl gyfrannu at dwf yr economi leol.

68. Gallai'r hwyluswyr annibynnol wneud gwaith mapio rhanddeiliaid a dadansoddi materion, gan grynhoi gwybodaeth am y grwpiau allweddol yn yr ardal a materion sy'n destun pryder, a nodi cymunedau o ddiddordeb. Byddai'r gwaith hwn yn cael ei adolygu gan y gwerthuswyr annibynnol, a fyddai'n adolygu effeithiolrwydd y broses, yn mesur llwyddiant, yn galluogi dysgu o brofiad ac yn cynorthwyo ag ymwybyddiaeth. Bwriad defnyddio hwyluswyr annibynnol a gwerthuswyr annibynnol yw meithrin ymddiriedaeth a datblygu'r sgwrs y tu mewn i'r gymuned ynghylch y broses o leoli CGD. Nid yw gwerthuswyr annibynnol yn rhan o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol ond byddant yn gweithio gyda'r tîm i helpu i feithrin ymddiriedaeth.
69. Rôl y tîm ymgysylltu ffurfiannol yw casglu'r wybodaeth a nodir uchod. Nod hyn yw helpu i sicrhau bod rhagor o ddeialog ac ymgysylltu â'r gymuned wedi'u seilio ar ddealltwriaeth dda o'r aelodau amrywiol o'r gymuned, y materion sy'n bwysig iddynt a, lle mae'n bodoli, unrhyw weledigaeth gymunedol ddiffiniedig o sut maent eisiau i'w cymuned fod yn y dyfodol. Bydd hyn yn dechrau canfod ffiniau posibl y gymuned a thrwy hynny'n sefydlu'r Ardal Chwilio bosibl (gweler paragraffau 77 i 80). Rhaid i'r deialog a'r gwaith ymgynghori a chasglu gwybodaeth fod yn gynhwysol a chyrraedd amrywiaeth o aelodau o'r gymuned. Fel hyn byddai gan y gymuned/cymunedau ran weithredol yn y gwaith o siapio'r wybodaeth a gesglir.
70. Dylai'r gwaith a wneir yn ystod y cyfnod ymgysylltu ffurfiannol ddarparu dealltwriaeth gyffredinol o'r agweddau daearyddol, cymdeithasol, economaidd, diwylliannol (gan gynnwys y Gymraeg) a gwleidyddol ar gymunedau, ynghyd â phroblemau amgylcheddol a thechnegol posibl, ac awgrym o'r rhagolygon o ran datblygu CGD yn yr ardal. Bydd gweithgareddau ymgysylltu ffurfiannol hefyd yn canfod aelodau o'r gymuned i gymryd rhan yn y Bartneriaeth Gymunedol (gweler paragraffau 85 i 99).
71. Ni fwriedir i ymgysylltu ffurfiannol ddarparu ateb i bob cwestiwn sydd gan y gymuned. Bwriedir iddo ei gwneud yn bosibl casglu digon o wybodaeth a chreu digon o

¹⁶ Mae'r ymgynghoriad hwn yn cyfeirio at "ardaloedd cyngor cymuned". Yr ardaloedd hyn yw'r ardaloedd cymuned a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Rydym hefyd yn cyfeirio at "gyngorau cymuned" sef y cynghorau a sefydlwyd yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd cyngor cymuned hynny, ond nid pob un ohonynt. Mae cyfeiriadau at "gyngorwyr cymuned" at aelodau o'r cynghorau cymuned hynny mewn ardaloedd lle mae cynghorau o'r fath wedi'u sefydlu.

gysylltiad â'r gymuned ehangach i waith ymgysylltu adeiladol ddechrau, ac i Bartneriaeth Gymunedol gydag RWM gael ei ffurfio, a all ystyried ac ymdrin â chwestiynau'n fanylach. Rhagwelir y gallai'r gwaith ymgysylltu ffurfiannol gymryd oddeutu 6 – 12 mis. Bydd y broses o gasglu gwybodaeth a meithrin dealltwriaeth o'r gymuned ac o'r potensial ar gyfer lleoli CGD yn yr ardal yn parhau trwy'r cyfnod ymgysylltu adeiladol. Rhan o'r broses hon fydd i RWM sicrhau bod cymunedau mewn ardaloedd gweinyddol cyfagos yn ymwybodol o'r broses leoli ac o nodi'r Ardal Chwilio.

CWESTIWN 1: Ymgysylltu ffurfiannol yw'r broses ar gyfer nodi cymuned a allai gynnig lleoliad fel yr esbonnir ym mharagraffau 62 i 71.

1(a) Ydych chi'n cytuno â'r ffordd arfaethedig o nodi cymunedau? A oes gennych unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?

1(b) Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cadeirydd annibynnol a hwyluswyr a gwerthuswyr annibynnol i helpu gyda'r gweithgareddau ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw ymagweddau eraill y dylem eu hystyried?

1(c) Ydych chi'n cytuno â'r aelodaeth arfaethedig o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw aelodau posibl eraill y dylid eu hystyried? Rhowch eich rhesymau dros gynnig aelodau ychwanegol.

Cyllid ymgysylltu

72. Unwaith mae'r corff cyflawni (RWM) yn fodlon bod y parti â diddordeb yn barod i gyhoeddi ei ddiddordeb (hynny yw, ei fod yn barod i roi gwybod i bobl yn ehangach yn y gymuned a'u gwahodd i ymuno â thrafodaethau), bydd yn darparu cyllid i hwyluso'r trafodaethau hyn a'i gwneud yn bosibl casglu a chyfnewid gwybodaeth.

73. Cyllid ymgysylltu yw'r enw ar hwn er mwyn gwahaniaethu rhyngddo a chyllid buddsoddi cymunedol a'i gwneud yn glir y gall unrhyw un sy'n cymryd rhan yn y broses leoli wneud hynny heb fynd i gostau. Bydd RWM yn darparu cyngor clir ar y gweithgareddau lle bydd treuliau'n cael eu talu a'r mecanwaith ar gyfer ad-dalu unrhyw gostau.

74. Byddai cyllid ymgysylltu'n talu costau gweithgareddau ymgysylltu ffurfiannol, gan gynnwys caffael cadeirydd, hwyluswyr a gwerthuswyr annibynnol, a gweithgareddau i ddysgu am waredu daearegol. Gall dalu am, er enghraifft, casglu gwybodaeth am unrhyw faterion sy'n peri pryder i'r gymuned a allai gynnig lleoliad, cyfarfod â rheoleiddwyr neu ymweld â safleoedd niwclear sy'n bodoli eisoes.


75. Bydd cyllid ymgysylltu'n cael ei ddefnyddio i dalu costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithredu Partneriaeth Gymunedol a dosbarthu cyllid buddsoddi cymunedol. Caiff ei ddefnyddio hefyd i ddarparu swyddogaethau ysgrifenyddiaeth. Bydd yn talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithredu'r prosesau Hawl i Dynnu'n Ôl a phrawf o gefnogaeth y cyhoedd.

76. O ran dosbarthu cyllid buddsoddi cymunedol, disgwylir hefyd i'r corff cyflawni (RWM) sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd ar gael i feithrin sgiliau a hyder grwpiau i wneud cais am y cyllid. Cynigir y byddai'r cyngor hwn, yn ogystal â'r

adnoddau gofynnol i weinyddu'r gwaith meithrin gallu hwn, yn cael ei ddarparu trwy gyllid ymgysylltu.

Ardal Chwilio

77. Efallai bydd trafodaethau rhwng partïon â diddordeb ac RWM yn ystyried ardal fawr iawn ar y dechrau, o bosibl ardal gyfan awdurdod lleol, neu gan gynnwys tir yn ardaloedd mwy nag un awdurdod lleol. Fel arall gallai fod yn ardal cymharol fach e.e. nifer o gaeau. Yn dilyn trafodaethau ac asesiad cychwynnol o'r wybodaeth bresennol, bydd y gwaith o archwilio safle yn cael ei gynnal i ddechrau nodi'r ardal ble y bydd y ddaear ac amodau y safle posibl yn cael eu hystyried yn fanwl.
78. Cyn y gellir nodi'r gymuned a allai gynnig lleoliad, felly, efallai bydd angen ymchwilio i ardal ehangach er mwyn penderfynu ar leoliad posibl y cyfleusterau ar yr wyneb a'r rhai o dan y ddaear. Mae angen i'r broses felly fod yn hyblyg, a bod modd ei haddasu a'i mireinio dros amser. Bydd angen cymuned gychwynnol i RWM drafod gyda hwy wrth chwilio am ardal briodol i'w harchwilio ac yn gosod cyfleuster gwaredu daearegol o bosib. Gallai'r broses ddechrau drwy nodi ardal yr awdurdod lleol neu ardaloedd, lle caiff gwaith asesu ac ymchwilio i safleoedd (gan gynnwys tyllau turio) ei wneud. Yr enw ar hon fydd yr Ardal Chwilio a chaiff ei nodi gan ddefnyddio ffiniau awdurdod lleol sy'n bodoli eisoes. Mae'n bosibl y daw nifer o rai sydd â diddordeb ymlaen ar ddechrau'r broses leoli ac mae'n bosibl y bydd nifer o Ardaloedd Chwilio yn y broses leoli.
79. Mae'n bosibl y bydd y cyswllt cyntaf ag RWM yn cynnwys mwy nag un ardal awdurdod lleol neu ardal gyfan awdurdod lleol, neu'n ymdrin â rhan yn unig o un ardal awdurdod lleol. Mae Ffigwr 2 yn darlunio'r Ardal Chwilio sy'n cynnwys nifer o ardaloedd awdurdod lleol ac yn dangos ardaloedd cyngor cymuned. Mae Ffigwr 3 yn darlunio sut y gall yr Ardal Chwilio gynnwys y cyfan. Mae Ffigwr 4 yn darlunio sut y gall yr Ardal Chwilio gynnwys rhan yn unig o awdurdod lleol. Yn yr achos hwn mae'n bosibl y bydd gwaith ymchwilio cychwynnol i safle a'r Ardal Chwilio yn seiliedig ar is-set o'r ardaloedd cyngor cymuned o fewn yr awdurdod lleol.



Ffigwr 2: Enghraifft o Ardal Chwilio sy'n cynnwys nifer o ardaloedd awdurdod lleol ac yn dangos ffiniau ardaloedd cyngor cymuned.



Ffigwr 3: Enghraifft o Ardal Chwilio sy'n cynnwys ardal gyfan awdurdod lleol



Ffigwr 4: Enghraifft o Ardal Chwilio mewn rhan o awdurdod lleol

80. Bydd y bobl yn yr Ardal Chwilio'n gymwys i gael cyllid buddsoddi cymunedol a, nes y bydd y gymuned a allai gynnig lleoliad wedi cael ei nodi, yn gallu arfer yr hawl i dynnu'n ôl (gweler y geirfa). Bydd aelodaeth y Bartneriaeth Gymunedol (gweler tabl 2), gan gynnwys yr awdurdod neu'r awdurdodau perthnasol os ydynt yn dymuno hynny, yn seiliedig ar yr Ardal Chwilio.

CWESTIWN 2: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddiffinio Ardal Chwilio? A oes unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?

Ymgysylltu Adeiladol

81. Bydd Ymgysylltu Ffurfiannol yn arwain at Ymgysylltu Adeiladol. Bydd hyn yn dechrau pan fydd Partneriaeth Gymunedol wedi cael ei ffurfio. Bydd angen i'r bartneriaeth hon

lofnodi Cytundeb Cymunedol fel bod pob parti yn deall ei rôl yn y broses. Ar yr adeg hon bydd cyllid buddsoddi cymunedol o hyd at £1 miliwn y flwyddyn i bob cymuned ar gael.

Cytundeb Cymunedol

82. Bydd y Cytundeb hwn yn ganolog er mwyn sicrhau tryloywder a chyfranogiad cymunedol yn y broses leoli a bydd yn nodi sut y bydd RWM a'r Bartneriaeth Gymunedol yn cydweithio yn ystod y broses leoli. Gallai'r Cytundeb nodi sut y darperir gwybodaeth i'r gymuned ehangach, megis llawlyfrau, platfformau ar-lein, pobl gyswllt grwpiau, yn ogystal â'r Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol. Bydd y cytundeb yn cadarnhau lefel addas o ymgysylltu a diddordeb o'r ddwy ochr drwy gydol y broses leoli. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl monitro cynnydd, a byddai'n helpu i ganfod a yw'r gymuned yn dechrau ymddieithrio o'r broses. Bydd hefyd yn galluogi aelodau o'r gymuned i ddal RWM i gyfrif ynghylch y ffordd y darperir gwybodaeth.
83. Dylai'r Gytundeb Cymunedol hefyd gynnwys y dull y caiff penderfyniadau eu gwneud gan y Bartneriaeth Gymunedol, megis dulliau posib o bleidleisio. Gallai hyn gynnwys o oes angen i bleidlais fod yn ddi-enw er mwyn ei chynnal neu a yw'n bosibl i un awdurdod lleol gefnogi cynnig gyda'u pleidlais. Wrth i aelodau newydd ymuno â Phartneriaeth Gymunedol, dylai'r prosesau o wneud penderfyniadau yn y Gytundeb Gymunedol gael eu hadolygu a'u diweddarau ble yr oedd hynny'n briodol.
84. Gallai sefyllfaoedd godi ble na all aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol gytuno ar faterion penodol. Gallai hyn gynnwys a ddylid dechrau'r hawl i dynnu yn ôl neu'r dull o fuddsoddi'r cyllid cymunedol. Dylai'r Cytundeb Cymunedol y cytunwyd arno gan y Bartneriaeth Gymunedol amlinellu'r broses o ddatrys anghydfodau mewn sefyllfaoedd o'r fath.

Partneriaeth Gymunedol

85. Fel rhan o drefniadau Partneriaeth Gymunedol, bydd cylch gorchwyl i sicrhau bod aelodau'n deall eu swyddogaeth o fewn y grŵp hwnnw, a'r hyn sydd i'w ddisgwyl ganddynt. Bydd yn rhaid cytuno ar y cylch gorchwyl hwn wrth lunio'r Bartneriaeth, a bydd yn nodi swyddogaethau'r aelodau a sut fydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cynrychioli safbwyntiau a diddordebau pobl ehangach yn y gymuned, a bod yn atebol iddynt. Fel rhan o'u cylch gorchwyl, bydd angen i aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol ddeall a gallu egluro i eraill yn y gymuned yn agos at ddechrau'r broses, sut y gallai'r hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd weithio. Bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut y mae'n dymuno rhoi'r prosesau hyn ar waith.
86. Bydd Partneriaethau Cymunedol yn cael eu tynnu o'r Ardal Chwilio. Bydd pobl yn cael eu penodi i'r Bartneriaeth Gymunedol gan banel dethol fydd yn cynnwys y cadeirydd annibynnol a'r partiön â diddordeb cychwynnol sy'n ymwneud â'r tîm ymgysylltu ffurfiannol i sicrhau bod y gynrychiolaeth yn briodol i'r ardal. Bydd y broses fanwl ar gyfer nodi a phenodi aelodau Partneriaeth Gymunedol yn cael eu cytuno gan y tîm ymgysylltu ffurfiannol, gyda chanllawiau wedi eu cynhyrchu a'u cyhoeddi gan RWM. Bwriedir i hyn fod wedi'i seilio ar y wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu ffurfiannol, ac y bydd yn cynnwys aelodau o'r gymuned ac RWM.

87. Bydd aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol yn gyfrifol am rannu gwybodaeth rhwng y gymuned ac RWM, ac am ddechrau deialog gyda'r gymuned ehangach.
88. Felly dylai Partneriaeth Gymunedol gael ei chynllunio i adlewyrchu cynifer o wahanol agweddau ar y gymuned ag sy'n bosibl, gan gymryd i ystyriaeth fuddiannau economaidd- gymdeithasol, gwleidyddol ac amgylcheddol lleol, darparu ar gyfer anghenion pobl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg, ac adlewyrchu amrywiaeth y gymuned.
89. Gellid gofyn i'r grwpiau a sefydliadau cymunedol a ganfyddir yn ystod y cyfnod ymgysylltu ffurfiannol enwebu pobl i'r Bartneriaeth Gymunedol, a gall unrhyw un wirfoddoli. Os yw'r tîm ymgysylltu ffurfiannol o'r farn y byddai o gymorth, gallai'r hwylyswyr annibynnol helpu gyda'r broses o ganfod aelodau addas i'r Bartneriaeth Gymunedol, gan ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r gwaith ymgysylltu ffurfiannol.
90. Bydd awdurdodau lleol y mae eu hardal yn cynnwys yr Ardal Chwilio, neu ran o'r ardal honno, yn cael gwahoddiad i gymryd rhan. Gall awdurdodau lleol ddewis peidio â bod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol, os felly dylent gael eu hysbysu o'r broses a dylent wneud yn glir eu bod yn fodlon i'r Bartneriaeth Gymunedol barhau heb iddynt fod yn rhan ohoni. Efallai y bydd Awdurdodau Lleol yn dymuno ymuno â'r bartneriaeth yn ddiweddarach yn y broses pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.
91. Bydd RWM yn aelod ond ni fydd ganddo unrhyw swyddogaeth wrth gynrychioli'r gymuned neu ar benderfyniadau ar brofi'r cefnogaeth y cyhoedd neu weithredu hawl y gymuned i dynnu'n ôl. Bydd RWM yn gyfrifol am bob penderfyniad technegol.
92. I alluogi'r Bartneriaeth Gymunedol i weithredu'n effeithiol awgrymir y bydd oddeutu 12 o aelodau gan y grŵp (gweler Tabl 3) fel nifer resymol. Fodd bynnag, nid yw'r nifer hon yn ddigyfnewid ac, ar ôl cael ei ffurfio, efallai y bydd y Bartneriaeth Gymunedol ei hun yn penderfynu newid ei haelodaeth o dro i dro. Mae'n bosibl y bydd, er enghraifft, yn cael aelodau o blith preswylwyr yr ardal, sefydliadau cymunedol neu wirfoddol, byd busnes neu ddarparwyr gwasanaethau lleol, partneriaethau cymdogaethol lleol, ardaloedd menter arbennig, awdurdodau lleol a chynghorau cymuned.
93. Fel rhan o drefniadau'r Bartneriaeth Gymunedol, bydd yna gylch gorchwyl er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n deall eu rôl yn y grŵp hwnnw, a'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt. Cytunir ar y cylch gorchwyl hwn wrth ei ffurfio, a bydd yn nodi rolau'r aelodau a sut y dylai'r Bartneriaeth Gymunedol gynrychioli safbwyntiau a buddiannau aelodau'r gymuned ehangach, a bod yn atebol iddynt. Mae'n bwysig bod aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn deall ac yn gallu esbonio i eraill yn y gymuned ehangach, ar ddechrau'r broses, sut y gallai'r hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd weithio.
94. Bydd angen i aelodau'r gymuned sy'n rhan o Bartneriaeth Gymunedol rannu gwybodaeth gydag aelodau eraill eu cymuned i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth, ac i ymateb i faterion pwysig. Hefyd, bydd aelodau sy'n cynrychioli sefydliadau yn gyfrifol am rannu'r holl wybodaeth a drafodwyd ac a ddatblygwyd drwy'r Bartneriaeth Gymunedol gyda gweddill y sefydliadau, yn ogystal â gyda phobl eangach o fewn y gymuned (e.e. dylai cynrychiolwyr awdurdodau lleol a chynghorau cymuned rannu gwybodaeth gyda'u cynghorau ehangach fel rhan o'u haelodaeth o'r Bartneriaeth).

95. Mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn debyg o ddatblygu dros gyfnod y broses leoli. Disgwylir y bydd aelodau cymunedol yn ymddiswyddo o dro i dro ac y bydd aelodau eraill o'r gymuned yn cymryd eu lle. Ar ôl cael ei sefydlu, bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn gwneud ei phenderfyniadau ei hun am aelodaeth briodol, penodi ei haelodau a'r broses ar gyfer newid ei haelodaeth. Wrth i aelodau newydd ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol, dylai'r prosesau o wneud penderfyniadau yn y Gytundeb Gymunedol gael ei hadolygu a'i diweddarau ble y bo'n briodol. Dylid nodi y bydd aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol yn cymryd rhan yn wirfoddol, ac y caiff eu treuliau eu talu trwy'r cyllid ymgysylltu.

Tabl 2. Aelodaeth o'r Bartneriaeth Gymunedol


Aelod	Rôl
Aelodau Cymunedol	Bydd yr ystod o bobl yn cael ei ffurfio gan y grwpiau hynny a nodwyd yn ystod y trafodaethau ymgysylltu ffurfiannol. Gellir penodi aelodau ychwanegol yn nes ymlaen wrth i'r Bartneriaeth Gymunedol ddatblygu, ac wrth i aelodau ymddiswyddo, o bosibl, gydag aelodau newydd yn dod yn eu lle.
Cadeirydd	Ar y dechrau gallai hwn fod yr un cadeirydd ag a ddefnyddiwyd yn ystod y trafodaethau ymgysylltu ffurfiannol neu gellid penodi cadeirydd newydd. Bydd yn sicrhau bod y gwaith a wneir yn deg ac yn ddiduedd a'i fod yn adlewyrchu anghenion y gymuned. Ar ôl cael ei sefydlu, mae'n bosibl y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu ethol ei chadeirydd ei hun.
RWM	Mae RWM yn aelod allweddol o'r bartneriaeth fel corff cyflawni CGD. Bydd yn parhau i ddarparu gwybodaeth ac ymgysylltiad yn ôl yr angen, ac yn darparu diweddariadau ar ei ymchwiliadau i ymarferoldeb yr ardal i gynnig lleoliad ar gyfer y cyfleuster. Bydd yn gyfrifol am yr holl benderfyniadau technegol. Ni fydd gan RWM unrhyw rôl yn y gwaith o gynrychioli'r gymuned nac mewn penderfyniadau am y prawf o gefnogaeth y cyhoedd nac a fydd y gymuned yn penderfynu arfer yr hawl i dynnu'n ôl.
Awdurdod(au) lleol perthnasol	Bydd awdurdodau lleol perthnasol yn cael gwahoddiad i ymaelodi â'r Bartneriaeth Gymunedol. Er bod croeso iddynt, nid yw eu haelodaeth yn hanfodol ac mae'n bosibl y byddant eisiau aros cyn cymryd rhan. Efallai y byddant eisiau ymuno â'r broses ar adeg ddiweddarach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Gan ddibynnu ar faint y Bartneriaeth Gymunedol, bydd yn bwysig nad yw cynrychiolwyr awdurdod lleol yn gyfran rhy fawr o'r aelodau.
Cyngor/Cynghorau cymuned perthnasol	Bydd cynghorau cymuned perthnasol yn cael gwahoddiad i ymaelodi â'r Bartneriaeth Gymunedol. Nid oes unrhyw rwymedigaeth i awdurdodau lleol fod yn rhan o'r Bartneriaeth. Os ydynt yn dewis peidio â bod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol, dylent gael eu hysbysu o'r broses a dylent wneud yn glir eu bod yn fodlon i'r Bartneriaeth Gymunedol barhau heb eu

	cyfraniad. Efallai y byddant eisiau bod yn ddi-duedd neu ymuno â'r broses ar adeg ddiweddarach pan fydd mwy o wybodaeth ar gael. Lle mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn cynnwys mwy nag un ardal cyngor cymuned mae'n bosibl y bydd angen i'r cynghorau cymuned perthnasol gytuno ar gynrychiolydd ar y cyd fel na fydd cynrychiolwyr cynghorau cymuned yn gyfran rhy fawr o aelodau'r Bartneriaeth.
Ardaloedd Menter	Caiff ardaloedd menter lleol fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol. Os felly, eu swyddogaeth fydd parhau i ddarparu gwybodaeth ar effeithiau'r seilwaith ar flaenoriaethau economaidd lleol a'r cyfraniad posibl at dwf economaidd lleol.

96. Bydd yna dîm cymorth ar gyfer logisteg a gweinyddu a hwyluswyr annibynnol (lle bo eu hangen) a rhoddir cymorth i feithrin sgiliau, gallu a hyder y gymuned. Bydd y cyfleusterau cymorth a'r hwyluswyr annibynnol yn cael eu cyllido trwy'r cyllid ymgysylltu.

97. Mae'r Bartneriaeth Gymunedol wedi'i chynllunio i hwyluso trafodaethau gyda'r gymuned ac i ganfod y wybodaeth mae arni ei hangen am y broses leoli. Bydd angen iddi fynd ati i ymgysylltu â phobl yn ehangach yn y gymuned yn barhaus. Gellid gwneud hyn drwy gyfarfodydd cyhoeddus agored Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol o dan gadeiryddiaeth aelod o'r Bartneriaeth Gymunedol gan wahodd pobl o'r Ardal Chwilio ac ardaloedd cyfagos yr awdurdod lleol (fel sy'n briodol) i drafod y broses leoli. Byddai hyn yn golygu bod modd gofyn cwestiynau a chodi pryderon ac i ddarparu diweddariadau ar waith y Bartneriaeth Gymunedol. Gellid cynnal y cyfarfodydd yn rheolaidd i sicrhau bod unrhyw un sydd am wybod mwy am waith y Bartneriaeth Gymunedol yn cael cyfle i wneud hynny. Bydd yn bwysig bod pob trafodaeth rhwng y Bartneriaeth Gymunedol a phobl ehangach yn y gymuned, a'r materion sy'n cael eu codi gan y gymuned, yn cael eu gwneud yn gyhoeddus. Mae'n bosibl y bydd ffyrdd eraill o ymgysylltu â'r gymuned ehangach, e.e. trwy wefan Partneriaeth Gymunedol, o fudd hefyd. Mae hon yn rhan bwysig o'r gwaith ymgysylltu, gan ei fod yn galluogi'r gymuned ehangach i godi unrhyw gwestiynau ac i ddatblygu eu diddordeb mewn CGD.

98. Er mwyn cynorthwyo â gweithrediad y Bartneriaeth Gymunedol, gellid sefydlu gweithgorau i ymdrin â materion penodol, er enghraifft ar faterion technegol neu faterion yn ymwneud â chyfathrebu ac ymgysylltu. Bydd hefyd panel i reoli gwaith buddsoddi cymunedol (mae'r adran ar fuddsoddi cymunedol yn rhoi mwy o fanylion). Mae Ffigwr 5 yn dangos hyn.



Ffigwr 5: Strwythur engreifftiol ar gyfer Partneriaeth Gymunedol a gweithgorau cynorthwyo

99. Mae'n bwysig i'r broses hon gael ei hysgogi gan y gymuned yn yr Ardal Chwilio, a'i bod mor gynhwysol ag sy'n bosibl. Rhoddir gwybod yn rheolaidd i'r awdurdodau lleol perthnasol wrth i'r trafodaethau symud ymlaen i ymgysylltu adeiladol. Rhoddir cyfle iddynt fod yn rhan o'r Bartneriaeth Gymunedol, os ydynt yn dymuno hynny (gweler baragraff XX uchod). Bydd yn bosibl i'r cynghorau cymunedol perthnasol ymuno â'r Bartneriaeth Gymunedol.

CWESTIWN 3: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ffurfio Partneriaeth Gymunedol sy'n cael ei chynorthwyo gan Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?

Swyddogaeth awdurdodau lleol

100. Roedd y cynigion ar gyfer symud i ymgysylltiad ffurfiannol, ac yn ddiweddarach yn y broses leoli am yr hawl i dynnu'n ôl a'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn nodi swyddogaethau clir ar gyfer awdurdodau lleol perthnasol o fewn y broses leoli. Bydd yn bosibl i awdurdodau lleol perthnasol ym mhob cymuned ddangos eu cefnogaeth i ymgysylltu â'r broses leoli a'r Bartneriaeth Gymunedol drwy:

- ddewis bod yn aelodau o'r bartneriaeth gymunedol;
- fel aelodau y Bartneriaeth Gymunedol, penderfynu parhau i ymgysylltu â'r broses leoli drwy beidio â chefnogi'r hawl i dynnu yn ôl drwy'r Bartneriaeth Gymunedol; a
- penderfynu a ydynt i gefnogi'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd a ddaw ar ddiwedd y broses ymgysylltu. Bydd angen i'r prif awdurdodau lleol fel rhan o'u swyddogaeth o fewn y Bartneriaeth Gymunedol hefyd helpu i gynllunio a lansio'r prawf hwn.

101. Nid yw'n ofynnol fodd bynnag i gymeryd penderfyniadau ar ryw amser a benderfynwyd ymlaen llaw yn ystod y cyfnod o ymgysylltiad ffurfiannol ac adeiladol. Gan nad yw'n ofynnol i gael unrhyw gefnogaeth amlwg ar y cychwyn, mae'r broses yn caniatáu cyfnod o ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys yr awdurdodau lleol perthnasol, dros sawl blwyddyn yn caniatáu i unrhyw benderfyniadau dilynol, gan gynnwys y prawf o gefnogaeth y cyhoedd gael ei gymryd wedi dod i wybod y ffeithiau

perthnasol i gyd; gan gynnwys pa mor addas yw y ddaearreg yn yr ardal leol, goblygiadau yn nhermau seilwaith ar yr wynebar gyfer unrhyw gyfleuster a manteision y cyfleuster hwnnw, o ran buddsoddi yn y gymuned a chyfleoedd hirdymor ar gyfer swyddi a thwf.

102. Mae'r dull a'r amseru ar gyfer yr hawl i dynnu'n ôl yn ogystal â'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn cael eu penderfynu gan y Bartneriaeth Gymunedol. Fel rhan o'r Gytundeb Gymunedol, bydd angen i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu ar y ffordd y bydd yn cytuno ar y dull yn ogystal â'r amseru ar gyfer y ddwy broses. Bydd yr awdurdodau lleol perthnasol, fel aelodau y Bartneriaeth Gymunedol, yn hanfodol i'r prosesau hon ac ni ellir cynllunio neu gynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd heb eu cefnogaeth.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n ystyried bod y broses a nodir uchod ac a gaiff ei hamlinellu yn y papur ymgynghori yn cynnig swyddogaeth sydd wedi'i diffinio'n addas i awdurdodau lleol yn y broses leoli? A oes dewisiadau eraill y dylem eu hystyried?

Cymuned a allai gynnig lleoliad

103. Bydd angen i'r gymuned a allai gynnig lleoliad gael ei nodi er mwyn gwneud yn glir pwy sy'n cymryd rhan mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd i gadarnhau a ddylai'r broses leoli fynd rhagddi mewn man penodol (gweler paragraffau 147- 152). Cynigir hefyd y gallai ceisiadau am gyllid buddsoddi cymunedol (gweler paragraffau 126 -135) gael eu blaenoriaethu i'w ddosbarthu yn y gymuned a allai gynnig lleoliad, os yw'r Bartneriaeth Gymunedol a fydd yn cael ei sefydlu yn barnu bod hyn yn briodol (gweler paragraffau 85 - 99).
104. Gan ddibynnu sut mae'r broses leoli'n cael ei chychwyn mewn cymuned, ar ddechrau'r broses mae'n bosibl y bydd yr ardal yr ymchwilir iddi er mwyn dod o hyd i safle addas yn cynnwys nifer o ardaloedd awdurdod lleol neu un ardal awdurdod lleol, neu efallai mai ardal gymharol fach fydd hi. Ar ôl trafodaethau cychwynnol ac asesiad o'r wybodaeth sy'n bodoli eisoes, bydd gwaith ymchwilio i'r safle, ar fwrdd gwaith ac yn y fan, yn cael ei wneud i ddechrau diffinio'r ardal lle bydd y ddaearreg ac amodau safle posibl yn cael eu hystyried yn fanwl.
105. Gallai defnyddio ffiniau presennol awdurdod lleol, cyngor cymuned neu ward etholiadol ddarparu ffin glir sy'n cynnig atebolrwydd democrataidd a chynnwys y gwasanaethau cynllunio, gwastraff ac eraill sy'n berthnasol i sicrhau CGD ac unrhyw ddatblygiadau cysylltiedig. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd ffin weinyddol sy'n bodoli eisoes yn perthyn yn dwt i gymuned a allai gynnig lleoliad ar gyfer CGD, a allai fod yn llai neu'n fwy nag uned wleidyddol sy'n bodoli eisoes, neu hyd yn oed yn pontio nifer o unedau gwleidyddol presennol. Efallai na fydd ychwaith yn diffinio'n dwt y ffiniau mae pobl neu gymunedau yn uniaethu â hwy yn eu bywydau beunyddiol.
106. Gellid hefyd diffinio ardal ddaearyddol trwy gyfeirio at yr effeithiau posibl ar yr ardal a gâi eu hachosi gan leoli ac adeiladu cyfleuster gwaredu daearregol: ardal ddaearyddol effaith. Mae yna ddulliau safonol i asesu'r effaith amgylcheddol y bydd RWM yn gallu eu defnyddio i ganfod effeithiau posibl a thrafod safleoedd addas posibl gyda chynrychiolwyr cymunedol. Bydd RWM yn darparu cyfarwyddyd ar yr offer effaith y bydd yn eu defnyddio fel rhan o'i broses o werthuso safle er mwyn sicrhau ei bod yn glir sut y caiff effeithiau eu canfod ac felly sut y gellid diffinio ardaloedd.


107. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid defnyddio cyfuniad o'r dulliau hyn ac y dylid paru ffiniau gweinyddol lleol mor agos ag sy'n bosibl ag effeithiau'r datblygiad. Byddai hyn yn caniatáu defnyddio ffiniau gweinyddol sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na bod angen datblygu ffiniau wedi'u teilwra at ddiben lleoli CGD, fel y bydd y poblogaethau y bydd yr effaith fwyaf arnynt yn ymgysylltu â'r broses leoli ac yn cael eu cynrychioli ynddi.
108. Bydd y gwaith o ganfod y safle penodol i adeiladu a gweithredu CGD yn datblygu ac yn y diwedd yn cael ei ddiffinio yn ystod y broses leoli. Pan gaiff ei nodi, yr enw ar y gymuned o gwmpas y safle arfaethedig fydd y gymuned a allai gynnig lleoliad. Os caiff CGD ei weithredu yno yn y pen draw, yn y Gymuned a Allai Gynnig Lleoliad bydd cyfleusterau'r CGD ar yr wyneb ac o dan y ddaear, ac effeithiau cysylltiedig ei adeiladu a'i weithredu, ac felly bydd yn darparu lleoliad ar gyfer y CGD.
109. Bwriedir i'r trefniadau arfaethedig hyn alluogi cymunedau i ymgysylltu ag RWM dros amser, er mwyn dylanwadu ar y datblygiad yn uniongyrchol, cael gwybod mwy am bosibiliadau CGD ac yn y pen draw penderfynu a ydynt yn cefnogi datblygu CGD yn eu hardal ai peidio. Bydd angen i'r gwaith ymgysylltu â phob cymuned adlewyrchu amodau lleol a chymryd i ystyriaeth effeithiau a materion sy'n peri pryder neu sy'n bwysig i'r gymuned honno. Bwriedir i'r gwaith o nodi'r gymuned a allai gynnig lleoliad mewn partneriaeth â'r bobl sy'n byw yn yr ardal helpu i feithrin ymddiriedaeth a pharch.
110. Nod polisi Llywodraeth Cymru yw galluogi cymunedau i ddeall effaith cynnig lleoliad ar gyfer CGD, meithrin perthynas ag RWM er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl i'r gymuned leol, a helpu RWM i wneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu anghenion a dyheadau'r gymuned leol lle bo modd.
111. Bydd RWM yn cynorthwyo cymunedau yn ystod trafodaethau a bydd yn eu galluogi i gael cyllid ymgysylltu a chyllid buddsoddi cymunedol. Bydd gan y gymuned ac RWM hawl parhaus i dynnu'n ôl yn ystod trafodaethau.
112. Os yw'n ymddangos y gallai safle fod yn addas, ac os yw'r gymuned ac RWM eisiau parhau â'r broses leoli mewn man penodol, yna bydd angen turio tyllau er mwyn gwneud rhagor o brofion ar yr amodau daearegol. Yng Nghymru bydd ar y rhain angen cymeradwyaeth cynllunio a hefyd trwyddedau amgylcheddol.
113. Bydd prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn y gall unrhyw gymuned gynnig lleoliad ar gyfer CGD. Os yw cymuned yn cefnogi cynnig lleoliad ar gyfer CGD mewn prawf o gefnogaeth y cyhoedd, bydd RWM yn gwneud cais am y cymeradwyaethau cynllunio a rheoleiddiol statudol, a fydd yn sicrhau bod y datblygiad yn briodol ac yn ddiogel. Mae prosesau'r trwyddedau cynllunio ac amgylcheddol hefyd yn cynnwys gofynion o ran cynnal ymgynghoriad cyhoeddus.

Ffiniau ardaloedd cyngor cymuned


114. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai ardal cyngor cymuned neu grŵp o ardaloedd o'r fath, yng Nghymru, yw'r ffin leol briodol i seilio'r gymuned a allai gynnig lleoliad, ac yn y pen draw y gymuned a fydd yn cynnig lleoliad, arni. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod yna ffiniau ardaloedd gweinyddol eraill y gellid eu dewis, megis y ward etholiadol leol (a gynigir yn ymgynghoriad BEIS i'w defnyddio yn Lloegr) neu ffin y cyngor sir.

115. Yn gyffredinol, mae pobl yng Nghymru yn adnabod yr ardal cyngor cymuned y maent yn byw ynddi, ond maent yn llai tebyg o fod yn ymwybodol o'r ward etholiadol, a allai fod yr un peth â'r ardal cyngor cymuned neu beidio. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yna ardaloedd cyngor cymuned sydd heb gynghorau cymuned ond nid yw o'r farn bod presenoldeb neu absenoldeb cyngor cymuned yn effeithio ar ddefnyddioldeb yr ardal neu ardaloedd cymuned fel sail i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad.
116. Gellid defnyddio ffiniau awdurdod lleol fel dewis arall ond mae rhai cynghorau sir yng Nghymru'n cwmpasu ardaloedd mawr iawn ac mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r ymagwedd hon yn llai tebyg o sicrhau cymuned gydlynus a allai gynnig lleoliad.
117. Felly mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai ardal cyngor cymuned neu grŵp o ardaloedd cyngor cymuned, yng Nghymru, sy'n cynnig yr ardal weinyddol leiaf mae'n hawdd ei hadnabod i'w defnyddio fel y sail i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad yng nghyd-destun trafodaethau ag RWM.
118. Bydd y gymuned a allai gynnig lleoliad yn cynnwys yr holl ardaloedd cyngor cymuned yn yr Ardal Chwilio y saif y canlynol ynddi:
- cyfleusterau ar yr wyneb ac o dan y ddaear;
 - unrhyw ddatblygiad cysylltiedig (fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 yn Lloegr) ac unrhyw ddatblygiad mae ei angen i liniaru effeithiau;
 - cysylltiadau/llwybrau trafnidiaeth¹⁷, o safle'r cyfleuster gwaredu daearegol i'r porthladd, pen rheilffordd neu rwydwaith prif ffyrdd agosaf (h.y. mor bell â lle mae is-ffyrdd yn cyfarfod â'r ffyrdd dosbarth A agosaf a ddefnyddir ar gyfer trafnidiaeth ar lefel rhanbarth neu sir); ac
 - effeithiau ffisegol uniongyrchol cysylltiedig ag adeiladu a gweithredu'r CGD (a nodir trwy waith asesiadau amgylcheddol a wneir i gynorthwyo â gwaith y corff cyflawni wrth ymgysylltu â chymunedau a'i geisiadau am ganiatâd datblygu).
119. Ar ôl cael ei nodi, mae'n bosibl y bydd y gymuned a allai gynnig lleoliad yn cynnwys un neu ragor o ardaloedd cyngor cymuned. Gan ddibynnu lle saif y gymuned a allai gynnig lleoliad, gallai fod o fewn un ardal awdurdod lleol neu gallai groesi ffin rhwng awdurdodau lleol. Mae Ffigyrau 6 a 7 yn rhoi enghreifftiau o sut y gellir cyfuno ardal ddaearyddol effaith ag ardaloedd cyngor cymuned i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad.

¹⁷ Mae yna ddulliau safonol sefydledig o gyflawni asesiadau trafnidiaeth y bydd y corff cyflawni (RWM) yn cydymffurfio â hwy ('Design Manual for Roads and Bridges: Volume 11 Environmental Assessment', y gellir ei weld ar: <http://www.standardsforhighways.co.uk/DMRB/vol11/index.htm>). Wrth ddewis safle, byddai'r corff cyflawni (RWM) yn ystyried y seilwaith trafnidiaeth sy'n bodoli eisoes, mathau a llwybrau trafnidiaeth addas, a mesurau lliniaru priodol i leihau unrhyw effeithiau niweidiol ar gymuned cymaint ag y bo modd.



Ffigwr 6: cymuned a allai gynnig lleoliad sy'n cynnwys ardaloedd cyngor cymuned mewn mwy nag un awdurdod lleol



Ffigwr 7: cymuned a allai gynnig lleoliad sy'n cynnwys ardaloedd cyngor cymuned mewn un awdurdod lleol

CWESTIWN 5: Ydych chi'n cytuno mai ardal cyngor cymuned neu grŵp o ardaloedd cyngor cymuned, yng Nghymru, ddylai fod yn sail i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad? A yw ffyrdd eraill o nodi ffin cymuned a allai gynnig lleoliad yn well? Rhowch eich rhesymau.

120. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn cytuno ar ardal y gymuned a allai gynnig lleoliad (gweler paragraffau 85 i 89) ar sail gwybodaeth a gasglwyd trwy gydol y broses leoli. Bydd RWM yn casglu a chyflwyno gwybodaeth berthnasol mewn perthynas ag effeithiau posibl y datblygiad. Mae ardal y gymuned a allai gynnig lleoliad yn debyg o gael ei mireinio dros amser. Mae polisi Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gymuned fod yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer CGD cyn y gellir bwrw ymlaen â gwaredu daearegol. Pan ddeuir i gytundeb terfynol am ardal y gymuned a allai gynnig lleoliad, y bobl yn yr ardal honno fydd yn gallu cymryd rhan yn y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, a thrwy hynny cadarnhau neu wadu eu bodlonrwydd i gynnig lleoliad ar gyfer y CGD (gweler paragraffau 147 i 152).

Cyllid buddsoddi cymunedol

121. Mae cyfleuster gwaredu daearegol yn fuddsoddiad seilwaith gwerth biliynau o bunnoedd ac mae'n debyg o gael effaith drawsnewidiol ar yr economïau lleol a rhanbarthol ehangach. Bydd yn darparu swyddi ac yn cefnogi gweithgarwch economaidd cysylltiedig yn yr ardal am fwy na 100 mlynedd. Mae RWM yn amcangyfrif y bydd CGD yn cyflogi - yn uniongyrchol - oddeutu 550 o weithwyr medrus ar gyflogau da trwy gydol oes y prosiect, gyda nifer y gweithlu'n codi i fwy na 1,000 yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu a'r gweithrediadau cynnar. Mae hyn, ynghyd â mentrau i gynorthwyo â meithrin sgiliau lleol a datblygu'r gadwyn cyflenwi, yn debyg o ddod â budd sylweddol i'r ardal leol.
122. Yn ystod rhannau cynnar y broses leoli, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo i sicrhau bod cyllid buddsoddi cymunedol gwerth hyd at £1 miliwn y flwyddyn i bob cymuned ar gael. Bydd hyn yn codi i hyd at £2.5 miliwn y flwyddyn i bob cymuned i gymunedau sy'n mynd ymlaen i ymchwiliadau tyllau turio sy'n asesu addasrwyddd posibl safleoedd. Caiff y cyllid hwn ei ddarparu trwy RWM.
123. Mae darparu cyllid buddsoddi cymunedol yn un o nodweddion cyffredin prosiectau seilwaith mawr. Mae darparu'r cyllid buddsoddi hwn yn gynnar yn y broses leoli yn cydnabod natur hirdymor prosiect cyfleuster gwaredu daearegol. Mae'n cydnabod yn benodol na fydd y buddion cysylltiedig â swyddi, seilwaith a buddsoddi mawr yn dod i fod hyd nes bod y gymuned wedi ymwneud â'r prosiect ers sawl blwyddyn. Nod cyllid buddsoddi cymunedol yw gwella gallu cymuned i gael budd o'r datblygiad, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Trwy baratoi yn gynnar, gall cymunedau fod mewn lle gwell i fanteisio ar y cyfleoedd hirdymor sy'n codi.
124. Yn dilyn y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, os yw cymuned yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cyfleuster, ni fydd hawl mwyach i dynnu'n ôl o broses leoli'r CGD. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu'r symiau mawr iawn o arian cyhoeddus fydd yn cael eu buddsoddi yn ystod y gwaith o ddatblygu CGD. Fel y nodwyd yn gynharach, bydd yn rhaid o hyd mynd drwy'r holl brosesau cynllunio a rheoleiddio statudol sy'n bodoli eisoes ym maes defnydd tir er mwyn adeiladu a gweithredu CGD, gan gynnwys rhagor o waith ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd, gan ddarparu ar gyfer rhagor o gyfraniad gan y gymuned i benderfyniadau ar y datblygiad arfaethedig.
125. Ar yr adeg hon mae'r gymuned wedi dangos ei bod yn fodlon cynnig lleoliad ar gyfer CGD a fydd o fudd i Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. I gydnabod yr ymrwymiad hwn, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu buddsoddiad ychwanegol i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad ar gyfer CGD, er mwyn helpu i gynyddu cymaint ag sy'n bosibl y buddion economaidd sylweddol sy'n rhan annatod o gynnig lleoliad ar gyfer prosiect seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn sylweddol - yn debyg i brosiectau CGD eraill yn rhyngwladol ac â'r gallu i gynhyrchu buddion i sawl cenedlaeth yn benodol i'r gymuned sy'n cynnig lleoliad ar gyfer CGD. Mae hyn yn ychwanegol at unrhyw gytundebau rhwng RWM a chymunedau i liniaru effeithiau yn ystod y gwaith adeiladu (o dan adran 106 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 fel y mae'n gymwys i Gymru), a'r cyllid ymgysylltu a ddarperir gan RWM i hwyluso ymgysylltu cymunedol yn y broses leoli.

Rheoli buddsoddiad cymunedol

126. Bydd mynediad at gyllid buddsoddi cymunedol yn cael ei roi ar sail ceisiadau y bydd aelodau'r gymuned yn eu cyflwyno i egluro beth yr hoffent gael cyllid ar ei gyfer, a sut fyddai o fudd i'r gymuned. Cynigir y dylai corff sy'n ffurfiol wahân i'r RWM (fel dull o gael myndediad i'r arian) reoli cyllid buddsoddi yn y gymuned, i sicrhau annibynniaeth a thryloywder ychwanegol. Un opiswn fyddai Panel Buddsoddiad Cymunedol, fyddai'n cynnwys aelodau o'r gymuned a RWM, a fyddai yn adolygu a phenderfynu ar geisiadau am gyllid yn erbyn y meini prawf a gytunwyd gan y bartneriaeth gymunedol. Fel arall, gellid defnyddio corff cymunedol sy'n bodoli eisoes os mai dyma sy'n cael ei benderfynu gan y Bartneriaeth Gymunedol. Bydd RWM hefyd yn cyllido cyngor a chymorth i gynorthwyo aelodau o'r gymuned gyda'u ceisiadau ac yn darparu cyngor, lle bo ymgeiswyr yn gofyn amdano.
127. Y sefyllfa arferol arfaethedig yw y dylai cyllid buddsoddi cymunedol gael ei reoli gan gorff sydd wedi'i wahanu'n ffurfiol oddi wrth RWM (fel sianel yr arian), er mwyn darparu annibynniaeth a thryloywder ychwanegol. Gellid defnyddio corff cymunedol sy'n bodoli eisoes, os mai dyma mae'r Bartneriaeth Gymunedol yn ei benderfynu. Bydd y corff hwn yn cael, rheoli a dosbarthu'r cyllid, a bydd ganddo bersonoliaeth gyfreithiol (neu yn achos Ymddiriedolaeth, bydd gan y rheiny sy'n rheoli'r Ymddiriedolaeth bersonoliaeth gyfreithiol), sgiliau ac adnoddau. Fodd bynnag, lle nad oes corff yn bodoli eisoes neu nad yw'r Bartneriaeth yn meddwl bod defnyddio corff o'r fath yn briodol yn ei hamgylchiadau penodol, efallai y bydd y Bartneriaeth yn dewis y gallai RWM gyflawni'r swyddogaeth honno.

Sut y ceir defnyddio cyllid buddsoddi cymunedol

128. Rhaid i gyllid buddsoddi cymunedol gael ei ddosbarthu yn unol â'r paramedrau a ddisgrifir yn y Papur Gwyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2014 a chyfyngiadau cyfreithiol perthnasol eraill. Er enghraifft, mae Papur Gwyn 2014 yn rhagnodi gwerth y cyllid, cyfyngiadau o ran at beth y dylid defnyddio'r arian, a'r angen am sbardunau i roi terfyn ar gyllid pan nad yw cymunedau'n ymwneud â'r broses mwyach.
129. Fel y corff sy'n gyfrifol am roi'r polisi Gweithio gyda Chymunedau ar waith, mae angen i RWM sicrhau bod gan unrhyw gorff newydd a ddefnyddir i ddosbarthu cyllid buddsoddi cymunedol y pwerau cyfreithiol angenrheidiol i wneud hynny. Yn yr un modd, mae RWM yn gyfrifol am sicrhau y caiff cyllid buddsoddi cymunedol ei ddosbarthu yn unol â'r gofynion o ran rheoleidd-dra a phriodoldeb a nodir yn y cyfarwyddyd 'Managing Public Money'¹⁸ a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, ac yn unol â chyfyngiadau cyfreithiol eraill (gan gynnwys rheolau cymorth gwladwriaethol). Mae rheoleidd-dra yn mynnu bod y defnydd o arian cyhoeddus yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol, awdurdodau dirprwyedig, a dilyn y cyfarwyddyd a nodir yn 'Managing Public Money'. Mae priodoldeb yn ymwneud â chydymffurfio â safonau uchel ymddygiad cyhoeddus, gofynion llywodraethu cadarn a disgwyliadau seneddol (yn arbennig tryloywder).
130. Mae egwyddorion ar gyfer cyllid buddsoddi cymunedol wedi cael eu datblygu ar sail meini prawf a ddefnyddir mewn cynlluniau buddsoddi cymunedol eraill sy'n cael eu cyllido'n gyhoeddus a ganfuwyd yn ystod y gwaith casglu tystiolaeth. Nodir yr

¹⁸ Cyfarwyddyd 'Managing Public Money', y gellir ei weld ar:

<https://www.gov.uk/government/publications/managing-public-money>

egwyddorion hyn isod i ddangos diben cyllid buddsoddi cymunedol i gymunedau a allai fod â diddordeb. Ni ellir defnyddio cyllid buddsoddi cymunedol ond i gyllido prosiectau, cynlluniau neu fentrau sy'n:

- gwella llesiant cymunedol er enghraifft gwelliannau i gyfleusterau cymunedol neu ansawdd bywyd neu iechyd a lles y gymuned;
- gwella'r amgylchedd naturiol ac adeiledig gan gynnwys treftadaeth ddiwylliannol a naturiol, ac yng Nghymru, cefnogi'r Gymraeg, yn enwedig lle gellir dangos buddion economaidd, er enghraifft, trwy dwristiaeth; a
- darparu cyfleoedd o ran datblygiad economaidd, er enghraifft cyfleoedd cyflogaeth, creu swyddi, datblygu sgiliau, addysg neu hyfforddiant, hybu menter leol, datblygiad economaidd hirdymor neu arallgyfeirio economaidd.

131. Yn ystod y cyfnod ymgysylltu adeiladol, bydd yr egwyddorion hyn yn cael eu hystyried ynghyd â'r weledigaeth economaidd leol (lle mae un yn bodoli) ac unrhyw strategaethau neu gynlluniau economaidd-gymdeithasol sy'n bodoli eisoes i ddatblygu meini prawf cyllido penodol i'r gymuned. Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu ar y meini prawf cyllido penodol i gael eu defnyddio yn ei chymuned ar ôl ei ffurfio. Bydd angen i'r meini prawf cyllido hynny adlewyrchu buddiannau, gwybodaeth, uchelgeisiau a gofynion y gymuned leol.

132. Dylai cymorth i gymunedau a ddarperir gan gyllid buddsoddi cymunedol anelu at sicrhau y gellir gwneud y defnydd gorau o'r cyllid ychwanegol a fydd ar gael pe baent yn cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn y pen draw.

133. Er mwyn cefnogi'r nod hwn gellid defnyddio cyllid buddsoddi cymunedol i ganolbwyntio ar faterion neu themâu a allai gynyddu gallu busnesau lleol ac aelodau o'r gymuned i gael budd o ddatblygu cyfleuster gwaredu daearegol. Bydd y gymuned ac RWM yn gweithio mewn partneriaeth i nodi ac adeiladu ar weledigaeth sy'n bodoli eisoes i'w hardal (megis Cynllun Cymdogaeth). Bydd hyn yn cefnogi dealltwriaeth y gymuned o sut y gallai'r cyfleuster gwaredu daearegol a seilwaith cysylltiedig ategu ei gweledigaeth economaidd.

134. Fel y dywedir yn yr adran gynharach ar nodi cymunedau, bydd cyllid buddsoddi cymunedol ar gael ar gyfer prosiectau, cynlluniau a mentrau yn yr Ardal Ymgysylltu. Ar ôl i'r Gymuned sy'n Cynnig Lleoliad gael ei nodi, mae'n bosibl y bydd ceisiadau am gyllid ar gyfer prosiectau, cynlluniau a mentrau yn y Gymuned sy'n Cynnig Lleoliad yn cael eu blaenoriaethu, gan ddefnyddio dull y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu arno.

135. Bydd angen dangos bod y gymuned yn ymgysylltu a bod y broses leoli'n mynd rhagddi er mwyn i gyllid buddsoddi cymunedol fod ar gael o hyd. Defnyddir y Cytundeb Cymunedol wedi'i lofnodi gan y Bartneriaeth Gymunedol i ddangos ymgysylltu a gweithredu'r broses leoli. Byddai'r Cytundeb Cymunedol yn cynnwys rhaglen fras o weithgareddau a gellid defnyddio cyflawni'r gweithgareddau hyn i ddangos cynnydd.

CWESTIWN 6: Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddarparu cyllid buddsoddi cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?

CWESTIWN 7: Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer rheoli cyllid buddsoddi cymunedol? A oes trefniadau eraill y dylem eu hystyried?

Hawl i dynnu'n ôl

136. Caiff y gymuned ac RWM fel ei gilydd dynnu'n ôl ar unrhyw adeg hyd at y prawf o gefnogaeth y cyhoedd.
137. Mae'n bosibl y bydd y gymuned yn codi pryderon ynghylch lleoli CGD yn ei hardal gyda'r Bartneriaeth Gymunedol, neu y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn dod i wybod am bryderon trwy'r gwaith ymgysylltu parhaus rhwng RWM a'r gymuned, neu drwy waith parhaus i fonitro barn y cyhoedd.
138. Dylai'r Bartneriaeth Gymunedol, gan gynnwys RWM, wneud pob ymdrech i fynd i'r afael â phryderon y gymuned cyn i'r hawl i dynnu'n ôl gael ei arfer. Gallai hwylusydd annibynnol helpu i gyfryngu rhwng RWM a'r gymuned er mwyn sicrhau bod pryderon yn cael eu clywed a'u deall a bod ymgais wedi cael ei wneud i fynd i'r afael â hwy.
139. Bydd yn bwysig i bob parti sy'n cymryd rhan yn y broses leoli fod â hyder yng nghywirdeb y wybodaeth fydd ar gael i gymunedau, yn arbennig os bydd gwahanol bartion yn gwneud datganiadau sy'n gwrthddweud ei gilydd. Gall cymunedau ofyn am wybodaeth oddi wrth amrywiaeth fawr o ffynonellau a allai gynnwys prifysgolion, y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol neu arbenigwyr lleol. At hynny, bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn sicrhau y gall cymunedau gael barn arbenigol trydydd parti yn ôl y gofyn ar faterion technegol neu wyddonol sydd heb eu datrys ac y mae dadlau yn eu cylch, ar ôl i gymunedau ymgysylltu'n adeiladol. Bydd yna broses gytunedig lle gellir cael barn arbenigol trydydd parti oddi wrth Gymdeithasau Dysgedig, yn unol â'r ymrwymiad ym Mhapur Gwyn 2014. Bydd y corff cyflawni (RWM) yn cynhyrchu cyfarwyddyd i helpu cymunedau i ddeall pryd a sut y gallant fanteisio ar y broses i gael barn arbenigol trydydd parti.

Barn arbenigol trydydd parti

Bydd cymunedau yn gallu gofyn am wybodaeth neu atebion i gwestiynau am waredu daearegol yn gyffredinol, neu yn benodol am leoli CGD mewn cymuned, oddi wrth amrywiaeth o ffynonellau arbenigedd a gwybodaeth gan gynnwys RWM, y rheoleiddwyr, y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM), prifysgolion, ac ymgynghorwyr arbenigol. Bydd cymunedau yng Nghymru hefyd yn gallu gofyn am ymatebion oddi wrth Lywodraeth Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion bydd y ffynonellau hyn yn gallu rhoi atebion sy'n bodloni'r gymuned. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd materion technegol neu wyddonol sydd heb eu datrys ac y mae dadlau yn eu cylch lle mae'r gymuned yn teimlo na roddwyd pen ar y mwdwl.

Darparodd Papur Gwyn 2014 DECC (BEIS erbyn hyn) am i gymunedau allu cael barn arbenigol trydydd parti annibynnol, lle mae materion technegol neu wyddonol sydd heb eu datrys ac y mae dadlau yn eu cylch heb gael eu datrys o hyd. Er nad yw Papur Gwyn 2014 yn berthnasol yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru yn barnu y dylai cymunedau yng Nghymru allu cael yr un lefelau o wybodaeth a barn arbenigol â chymunedau mewn mannau eraill. Felly rydym yn cynnig y dylai'r trefniadau a nodir ym Mhapur Gwyn 2014 gael eu hystemyn i Gymru.

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal â nifer o Gymdeithasau Dysgedig a sefydliadau proffesiynol cymeradwy er mwyn sicrhau y gall cymunedau gael barn arbenigol trydydd parti.

Ni fydd yr aelodau o'r Cymdeithasau Dysgedig sy'n cytuno i fod yn rhan o'r mecanwaith hwn yn gwneud penderfyniadau, darparu argymhellion na rhoi cyngor. Yn hytrach, gofynnir iddynt gynnig barn arbenigol trydydd parti ar faterion technegol a gwyddonol, y gall y sawl a ofynnodd amdani ei defnyddio i ddarparu gwybodaeth ar gyfer ei brosesau neu ystyriaethau ei hun.

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn gallu gofyn am farn arbenigol trydydd parti a bydd unrhyw aelod o'r gymuned yn gallu gofyn i'r Bartneriaeth Gymunedol wneud hyn. Bydd barn arbenigol trydydd parti yn mynd yn syth i'r gymuned dan sylw ac nid trwy RWM, Llywodraeth Cymru neu BEIS.

Bydd RWM, BEIS a Llywodraeth Cymru hefyd yn gallu gofyn am farn arbenigol trydydd parti ar faterion y mae dadlau yn eu cylch.

CWESTIWN 8: A ddylai'r trefniadau i alluogi cymunedau i gael barn arbenigol trydydd parti, a nodir ym Mhapur Gwyn 2014 a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon, ac a drafodwyd uchod, gael eu hystemyn i gynnwys cymunedau yng Nghymru?

140. Hyd at y pwynt y mae cymuned bosibl a allai gynnig lleoliad wedi ei nodi ger safle penodol, y gymuned sy'n gymwys i gael dweud eu dweud ynghylch yr hawl i dynnu'n ôl fydd yr Ardal Chwilio. Unwaith y mae'r gymuned a allai gynnig lleoliad o bosibl wedi ei nodi, dim ond bryd hynny fydd ganddynt yr hawl i dynnu'n ôl.

141. Bydd RWM yn gwneud pob ymdrech i fynd i'r afael ag unrhyw anghydfodau neu broblemau o fewn y Bartneriaeth Gymunedol. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio hwylusydd/cyfryngwr (y corff cyflawni i dalu am hyn) i helpu i gyfryngu yn y sefyllfa hon. Bydd RWM hefyd yn cynnig gwybodaeth fel y bo angen os bydd un o'r rhwystrau yn gysylltiedig â gwybodaeth dechnegol a gwyddonol gefndirol; yn yr un

modd gallai awgrymu i'r Bartneriaeth Gymunedol ei fod yn cyfeirio'r pryderon technegol hyn at arbenigwyr allanol

142. Os, ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod ymgysylltu adeiladol, er gwaethaf y wybodaeth a gafwyd, y ceir pryderon o hyd ynghylch mater pwysig nad yw wedi cael digon o sylw i naill ai'r gymuned neu aelodau'r Bartneriaeth Gymunedol, gallai y Bartneriaeth Gymunedol (heb gynnwys RWM) benderfynu eu bod eisiau tynnu'n ôl o'r broses.
143. Os nad yw aelodau o fewn y Bartneriaeth Gymunedol yn gallu penderfynu a ddylid defnyddio'r hawl i dynnu'n ôl, yna yn y pen draw ni fydd cynnydd digonol o fewn y gymuned hon ac mae'n bosibl y bydd RWM yn cael eu gorfodi i dynnu'n ôl o'r ymgysylltiad â'r gymuned.
144. Bydd y dull ac amseru'r hawl i dynnu'n ôl yn ogystal â'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd yn cael ei benderfynu gan y Bartneriaeth Gymunedol ac yn cael ei amlinellu yn y Gytundeb Gymunedol. Bydd yr awdurdodau lleol perthnasol, fel aelodau y Bartneriaeth Gymunedol, yn hollbwysig i'r prosesau hon ac ni ellir cynllunio na chynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd heb eu cefnogaeth.
145. Os bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu gofyn i'r gymuned a ydynt am dynnu'n ôl o'r broses, gan dynnu ar yr hyn sydd wedi'i ddysgu o brofiad ym Mhrydain a thramor o wneud penderfyniadau gan y gymuned, mae ar hyn o bryd dri prif ddull y gellid eu defnyddio i arfer hawl y gymuned i dynnu'n ôl: refferendwm lleol, ymgynghoriad ffurfiol neu fwrw pleidlais sy'n cynrychioli ystadegau. O ystyried yr angen i ymateb i wahanol ofynion o fewn y gymuned a'r posibilrwydd o ddulliau newydd yn dod i'r amlwg, byddai'r dull a'r amseru felly'n benderfyniad ar gyfer y Bartneriaeth Gymunedol.
146. Unwaith y mae'r Bartneriaeth Gymunedol wedi deddfu ar yr hawl i dynnu'n ôl, byddai unrhyw gyllid buddsoddi nad oedd wedi'i ddyrannu eisoes yn dod i ben. Mae gan RWM hefyd y gallu i dynnu'n ôl o'r broses. Gallai dynnu'n ôl am resymau technegol neu resymau eraill a ddangosai nad oedd rhagolygon mwyach o ddod o hyd i safle addas yn y gymuned, neu er mwyn blaenoriaethu'r cyllid sydd ar gael ar draws cymunedau eraill sy'n ymwneud â'r broses. Mewn sefyllfa lle mae nifer o safleoedd sy'n ymarferol o safbwynt technegol a chymunedol, bydd yn bwysig i RWM fod yn dryloyw yn ei ystyriaethau cyn gwneud cais am ganiatâd datblygu a chaniatadau eraill i fwrw ymlaen oddi wrth reoleiddwyr yr amgylchedd a diogelwch a diogeledd niwclear.

CWESTIWN 9: A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu a ddylid arfer yr hawl i dynnu'n ôl a gofyn y cwestiwn i'r gymuned? A oes gennych farn ar ffyrdd eraill o benderfynu hyn?

Prawf o gefnogaeth y cyhoedd

147. Polisi Llywodraeth Cymru yw na all gwaredu daearegol ddigwydd yng Nghymru ond os oes cymuned sy'n fodlon cynnig lleoliad ar gyfer CGD. Mae Llywodraeth Cymru yn barnu ei bod yn briodol rhoi i'r bobl hynny y bydd y datblygiad yn cael effaith uniongyrchol arnynt y gair olaf ynghylch a ddylai'r broses leoli ar gyfer CGD fynd ymlaen i'r prosesau trwyddedu, caniatáu amgylcheddol a chynllunio statudol yn eu cymuned. Felly'r bobl sy'n byw yn ardal y gymuned a allai gynnig

lleoliad fydd yn penderfynu a ydynt eisiau cynnig lleoliad ar gyfer CGD yn eu hardal trwy'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd. Cynhelir y prawf o gefnogaeth y cyhoedd cyn i RWM wneud cais am y cymeradwyaethau trwyddedu, caniatáu amgylcheddol a chynllunio statudol i leoli CGD.

148. Bydd angen i Bartneriaeth Gymunedol gynllunio a lansio'r prawf hwn o gefnogaeth y cyhoedd. Fodd bynnag, os nad yw cynrychiolwyr yr awdurdod lleol perthnasol bellach yn dymuno cefnogi'r broses, yna mae'n annhebygol y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn gallu lansio prawf o gefnogaeth y cyhoedd bryd hynny. Heb Brawf positif o Gefnogaeth y Cyhoedd, ni fydd RWM yn gallu gwneud penderfyniad terfynol i geisio cymeradwyaeth reoleiddiol a chydsyniad i fynd ymlaen i ddatblygu CGC ar safle penodol.
149. Fel gyda'r hawl i dynnu'n ôl, ar hyn o bryd mae tri phrif fecanwaith y gellid eu defnyddio ar gyfer y prawf o gefnogaeth y cyhoedd: refferendwm lleol, ymgynghoriad ffurfiol neu bolau ystadegol-gynrychioladol. Bydd RWM yn cynhyrchu cyfarwyddyd a fydd yn nodi'n fanylach sut y gallai'r prawf o gefnogaeth y cyhoedd weithio. RWM fyddai'n talu cost cynnal y prawf o gefnogaeth y cyhoedd.
150. Ni fyddai'r prawf yn cael ei gynnal ond ar ôl gwaith helaeth i ymgysylltu ac ymgynghori â'r gymuned a lle mae'r gymuned wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau, codi eu pryderon a dysgu am ddiogelwch CGD. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd, adlewyrchu gwahanol anghenion cymunedau a chaniatáu ar gyfer y posibilrwydd y bydd dulliau newydd o sicrhau cydsyniad cymunedau yn dod i'r amlwg, y Bartneriaeth Gymunedol fydd yn penderfynu pryd yn union y dylid cynnal y prawf a'r dull mwyaf priodol. Dim ond un cyfle fydd i gynnal prawf o gefnogaeth y cyhoedd ac os yw'r prawf yn negyddol bydd y broses leoli'n dod i ben yn y gymuned honno.
151. Yn dilyn y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, os yw cymuned yn penderfynu cefnogi datblygu cyfleuster, nid fydd hawl i dynnu'n ôl mwyach. Fodd bynnag, bydd yn rhaid o hyd mynd drwy'r holl brosesau cynllunio a rheoleiddiol statudol ym maes defnydd tir, gan gynnwys eu mecanweithiau ymgysylltu â'r cyhoedd, gan ganiatáu ar gyfer rhagor o waith ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned. Ar ôl cadarnhau bod y gymuned yn cefnogi'r cyfleuster, ac ar ôl i RWM, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y Deyrnas Unedig ac, yng Nghymru, â Llywodraeth Cymru, ddewis y safle mae'n ei ffafrio, bydd RWM yn mynd ymlaen i gyflwyno ceisiadau ar gyfer adeiladu a gweithredu CGD ar safle penodol mewn ardal sydd wedi dangos ei chefnogaeth. Os rhoddir yr holl gymeradwyaeth cynllunio a thrwyddedau angenrheidiol, yna gall RWM fwrw ymlaen â chyflawni CGD. Ar yr adeg hon, bydd buddsoddiad cymunedol sylweddol ar gael i'r Gymuned sy'n Cynnig Lleoliad ar y safle a ddewisir.
152. Mae'n bosibl y bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn troi'n grŵp cyswllt sy'n darparu rhyngwyneb parhaus rhwng RWM a'r gymuned leol yn ystod y broses caniatâd datblygu (cynllunio) a'r tu hwnt, os rhoddir caniatâd datblygu. Gall aelodau o'r Gymuned sy'n Cynnig Lleoliad godi rhagor o bryderon o hyd os ydynt yn dewis gwneud hynny fel rhan o'r prosesau cynllunio a rheoleiddio.

CWESTIWN 10: Rhaid i brawf o gefnogaeth y cyhoedd gael ei gynnal yn y gymuned a allai gynnig lleoliad cyn y gellir datblygu CGD. A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut a phryd y dylid cynnal y prawf o gefnogaeth y cyhoedd? A oes gennych farn am sut arall y gellid penderfynu hyn?

Cynigion polisi gweithio gyda chymunedau

153. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn ofalus cyn penderfynu ar y fframwaith y bydd RWM yn ei ddefnyddio i ymgysylltu â chymunedau yng Nghymru.

HOLIADUR YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

Gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol: Gweithio gyda chymunedau a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad

Rydym eisiau gwybod beth yw eich barn am y cynigion yn y ymgynghoriad.

Cyflwynwch eich sylwadau os gwelwch yn dda erbyn 20 Ebrill 2018.

Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, e-bostiwch:

EQR@Gov.Wales

Diogelu Data
Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych am i'ch enw neu gyfeiriad gael ei gyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'r manylion. Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid i ni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, mae hon yn ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyfrinachedd
Mae ymatebion i ymgynghoriadau'n debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad.
Os nad ydych am i'ch enw a'ch cyfeiriad ymddangos mewn unrhyw ddogfennau y byddwn yn eu llunio, nodwch hynny yma ☐
Os nad ydych am i'ch ymateb ymddangos mewn unrhyw ddogfen y byddwn yn ei llunio, nodwch hynny yma ☐

Dyddiad:		
Enw		
Sefydliad		
Cyfeiriad		
Cyfeiriad e-bost		
Ffôn		
Math (dewiswch un o'r canlynol os gwelwch yn dda)	Busnes	☐
	Awdurdod Lleol	☐
	Cyngor Cymuned	☐
	Corff Cyhoeddus Arall	☐
	Corff Proffesiynol	☐
	Sector gwirfoddol (grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr, grwpiau hunangymorth, cydweithfeydd, mentrau, crefyddol, mudiadau dielw)	☐
	Ymatebydd unigol	☐
	Arall (grwpiau eraill heb eu rhestru uchod)	☐

Q1	Ymgysylltu ffurfiannol yw'r broses ar gyfer nodi cymuned a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad fel yr esbonnir ym mharagraffau 62 i 71.	X
	1(a): Ydych chi'n cytuno â'r ffordd arfaethedig o nodi cymunedau? A oes gennych unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?	
	Cytuno	
	Cytuno gan mwyaf	
	Anghytuno	
	1(b) Ydych chi'n cytuno â'r cynigion ar gyfer cadeirydd annibynnol a hwyluswyr a gwerthuswyr annibynnol i helpu gyda'r gweithgareddau ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw ymagweddau eraill y dylem eu hystyried?	
	Cytuno	
	Cytuno gan mwyaf	
	Anghytuno	
	1(c) Ydych chi'n cytuno â'r aelodaeth arfaethedig o'r tîm ymgysylltu ffurfiannol? A oes unrhyw aelodau posibl eraill y dylid eu hystyried? Rhewch eich rhesymau dros gynnig aelodau ychwanegol.	
	Cytuno	
	Cytuno gan mwyaf	
	Anghytuno	
Sylwadau eraill		

Q2	Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddiffinio Ardal Chwilio? A oes unrhyw ddulliau eraill y dylem eu hystyried?	X
Cytuno		
Cytuno gan mwyaf		
Anghytuno		
Sylwadau eraill		

Q3	Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ffurfio Partneriaeth Gymunedol sy'n cael ei chynorthwyo gan Fforwm Rhanddeiliaid Cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?	X
Cytuno		
Cytuno gan mwyaf		
Anghytuno		
Sylwadau eraill		

Q4	Ydych chi'n ystyried bod y broses a nodir uchod ac a gaiff ei hamlinellu yn y papur ymgynghori yn cynnig swyddogaeth sydd wedi'i diffinio'n addas i awdurdodau lleol yn y broses leoli? A oes dewisiadau eraill y dylem eu hystyried?	X
Cytuno		
Cytuno gan mwyaf		
Anghytuno		
Sylwadau eraill		

Q5	Ydych chi'n cytuno mai ardal cyngor cymuned neu grŵp o ardaloedd cyngor cymuned, yng Nghymru, ddylai fod yn sail i nodi cymuned a allai gynnig lleoliad? A yw ffyrdd eraill o nodi ffin cymuned a allai gynnig lleoliad yn well? Rhewch eich rhesymau.	X
Cytuno		
Cytuno gan mwyaf		
Anghytuno		
Sylwadau eraill		

Q6	Ydych chi'n cytuno â'r dull arfaethedig o ddarparu cyllid buddsoddi cymunedol? A oes dulliau eraill y dylem eu hystyried?	X
	Cytuno	
	Cytuno gan mwyaf	
	Anghytuno	
Sylwadau eraill		

Q7	Ydych chi'n cytuno â'r trefniadau arfaethedig ar gyfer rheoli cyllid buddsoddi cymunedol? A oes trefniadau eraill y dylem eu hystyried?	X
	Cytuno	
	Cytuno gan mwyaf	
	Anghytuno	
Sylwadau eraill		

Q8	A ddylai'r trefniadau i alluogi cymunedau i gael barn arbenigol trydydd parti, a nodir ym Mhapur Gwyn 2014 a gyhoeddwyd ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon, ac a drafodwyd uchod , gael eu hymestyn i gynnwys cymunedau yng Nghymru?	X
Cytuno		
Cytuno gan mwyaf		
Anghytuno		
Sylwadau eraill		

Q9	A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu a ddylid arfer yr hawl i dynnu'n ôl a gofyn y cwestiwn i'r gymuned? A oes gennych farn ar ffyrdd eraill o benderfynu hyn?	X
Cytuno		
Cytuno gan mwyaf		
Anghytuno		
Sylwadau eraill		

Q10	Rhaid i brawf o gefnogaeth y cyhoedd gael ei gynnal yn y gymuned a allai gynnig lleoliad cyn y gellir datblygu CGD. A yw'n briodol i'r Bartneriaeth Gymunedol benderfynu sut a phryd y dylid cynnal y prawf o gefnogaeth y cyhoedd? A oes gennych farn am sut arall y gellid penderfynu hyn?
Sylwadau eraill	

Q11	A oes gennych unrhyw farn arall am y materion sy'n cael eu cyflwyno yn yr ymgynghoriad hwn?
Sylwadau eraill	

Sut mae ymateb

Anfonwch eich sylwadau erbyn 20 Ebrill 2018 gan ddefnyddio unrhyw un o'r dulliau canlynol:

E-bost	Post
Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad a'i hanfon i: EQR@gov.wales [Cofiwch gynnwys Ymateb i'r ymgynghoriad 'Gwaredu gwastraff ymbelydrol yn ddaearegol: Gweithio gyda chymunedau a allai fod yn fodlon cynnig lleoliad' yn y llinell pwnc]	Llenwch y ffurflen ymgynghori a'i hanfon i: Ansawdd Amgylchedd a Rheoleiddio Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ

Gwybodaeth ychwanegol
Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymgynghoriad hwn, E-bost: EQR@gov.wales

Atodiad 2

Rôl a chyfrifoldebau

Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am bolisi mewn perthynas â gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) yn ddaearegol yng Nghymru ac mae'n datblygu'r polisi ar gyfer gweithio gyda chymunedau yn ystod y broses o leoli CGD. Mae hefyd yn gyfrifol am osod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer rheoleiddio amgylcheddol ar waredu daearegol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gyfrifol am y fframwaith cynllunio ar gyfer gwaredu daearegol yng Nghymru a bydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r wedd derfynol gael ei rhoi ar gynigion ar gyfer hyn. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Gweinyddiaeth Gogledd Iwerddon i gyflawni gwaredu GUA yn ddaearegol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn gweithio gydag RWM i sicrhau bod nodweddion penodol Cymru'n cael eu hadlewyrchu wrth gyflawni gwaredu daearegol yng Nghymru os yw cymuned neu gymunedau yn penderfynu gofyn am drafodaethau gydag RWM. Yn yr amgylchiadau hynny byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn hapus i weithio gyda chymunedau sy'n cymryd rhan mewn trafodaethau gydag RWM.

Llywodraeth y Deyrnas Unedig

Yn Llywodraeth y Deyrnas Unedig mae'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) yn gyfrifol am faterion niwclear sifil yn y Deyrnas Unedig ac yn darparu cyllid ar gyfer rhaglenni datgomisiynu a rheoli gwastraff niwclear sifil y sector cyhoeddus. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig, trwy BEIS a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn cyllido'r rhaglen gwaredu daearegol. Bydd BEIS yn goruchwyllo gwaith RWM o roi'r polisi ar waith wrth i'r broses leoli CGD fynd rhagddi.

Cymunedau

Mae cymunedau'n ganolog i'r broses hon o leoli CGD; polisi Llywodraeth Cymru yw na ellir lleoli CGD yng Nghymru ond mewn cymuned sy'n fodlon cynnig lleoliad.

Er mwyn i'r broses lwyddo bydd angen i RWM ymgysylltu ag aelodau o gymuned a allai gynnig lleoliad i ddarparu a chyfnewid gwybodaeth ac i nodi materion sy'n bwysig i'r gymuned. Gallai hyn fod mewn perthynas ag ardaloedd gwarchodedig neu sensitif yn lleol y mae angen eu hystyried yn y broses leoli, pryderon diogelwch, neu ddeall gwastraff ymbelydrol. Bydd y gymuned a allai gynnig lleoliad hefyd yn gallu nodi blaenoriaethau ar gyfer cyllid buddsoddi cymunedol a chyfleoedd i'r gymuned. Bydd angen i aelodau o'r gymuned a allai gynnig lleoliad sy'n ymwneud â'r Bartneriaeth Gymunedol rannu gwybodaeth â phobl yn y gymuned ehangach er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ymateb i faterion pwysig.

Bydd y Bartneriaeth Gymunedol yn penderfynu pryd mae wedi cael digon o wybodaeth i ateb y cwestiynau a godir yn ystod trafodaethau gydag RWM. Bydd yn penderfynu pryd y bydd y gymuned a allai gynnig lleoliad yn cynnal, ac yn cymryd rhan mewn, prawf o gefnogaeth y cyhoedd i'r datblygiad. At hynny, ar unrhyw adeg yn y broses leoli, hyd at y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, gall benderfynu trefnu pleidlais gymunedol ar dynnu'n ôl, fel y trafodir yn fanylach yn yr ymgynghoriad hwn.

Awdurdodau Lleol

Bydd awdurdodau lleol (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) yn gallu cymryd rhan yn y gwaith ymgysylltu cymunedol a'r broses o leoli CGD a rhoddir gwybod iddynt am unrhyw ymgysylltu ffurfiol rhwng RWM a phartïon â diddordeb yn yr ardal maent yn ei chynrychioli. Byddant yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y gwaith o gasglu gwybodaeth am y gymuned ac mewn unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n gofyn am farn y gymuned leol. Bydd cynrychiolwyr awdurdodau lleol hefyd yn cael gwahoddiad i fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol, er na fydd gofyniad i gymryd rhan ac mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol eisiau arsylwi ar y broses, yn arbennig yn y cyfnodau cynnar. Fel hyn ni fydd yn ofynnol i wleidyddion sydd wedi'u hethol yn lleol fabwysiadu safbwynt cadarnhaol neu negyddol pendant a gallant gymryd rhan dim ond er mwyn cael gwybod mwy am y cyfleoedd i'w hardal hwy. Fodd bynnag, os na fyddant yn dewis cymryd rhan yn y broses dylent nodi eu parodrwydd i'r broses fynd ymlaen hebddynt. Bydd Awdurdodau Lleol hefyd yn gallu ymuno â'r broses yn ddiweddarach pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

Cynghorau Cymuned

Bydd cynghorau cymuned hefyd yn gallu cymryd rhan yn y gwaith ymgysylltu cymunedol a'r broses o leoli CGD. Rhoddir gwybod iddynt am unrhyw ymgysylltu ffurfiol rhwng RWM a phartïon â diddordeb yn yr ardal maent yn ei chynrychioli a byddant yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y gwaith o gasglu gwybodaeth ac mewn unrhyw gyfarfodydd neu ddigwyddiadau sy'n gofyn am farn y gymuned leol. Gallai cynrychiolwyr cynghorau cymuned hefyd gael gwahoddiad i fod yn aelodau o'r Bartneriaeth Gymunedol. Fodd bynnag, ni fydd gofyniad i gymryd rhan ac mae'n bosibl y bydd cynghorau cymuned eisiau arsylwi ar y broses, yn arbennig yn y cyfnodau cynnar. Fel hyn ni fydd yn ofynnol i gynrychiolwyr sydd wedi'u hethol yn lleol fabwysiadu safbwynt cadarnhaol neu negyddol pendant a gallant gymryd rhan dim ond er mwyn cael gwybod mwy am y cyfleoedd i'w hardal hwy.

Ni fydd lleoli CGD yn llwyddiannus ond os yw'r gymuned yn ymgysylltu'n llawn ac, ar ddiwedd y broses o ymchwilio i safle, os yw'n fodlon cymeradwyo cynnig lleoliad ar gyfer CGD trwy brawf o gefnogaeth y cyhoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y rhan bwysig y gallai cynghorau cymuned ei chwarae yn y broses hon. Fodd bynnag, nid yw'n barnu y dylai cynghorau cymuned allu mynnu bod cymuned yn cymryd rhan mewn trafodaethau gydag RWM na gwahardd trafodaethau o'r fath.

RWM

Mae Radioactive Waste Management Limited (RWM) yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA); mae'n gyfrifol am ddarparu ffyrdd o reoli gwastraff ymbelydrol a chyflawni CGD. Fel y corff cyflawni bydd RWM yn rhoi ar waith y polisi a nodir gan BEIS ac, yng Nghymru, polisi Llywodraeth Cymru, a bydd yn cynhyrchu cyfarwyddwyd manwl ar sut y caiff y polisi ei roi ar waith. Pan gaiff y broses leoli ei lansio bydd yn mynd ati i ymgysylltu â phartïon â diddordeb a chymunedau lleol.

Bydd RWM yn gyfrifol am sicrhau bod cymunedau yn cael y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i fod yn gyfforddus gyda bwrw ymlaen â'r broses leoli. Bydd yn darparu cyllid ymgysylltu ar gyfer gwaith gweinyddol, rheoli prosiect a logisteg i gymunedau sydd â

diddordeb yn y broses leoli. Bydd hefyd yn darparu cyllid buddsoddi cymunedol i gael ei ddosbarthu i'r gymuned leol.

Bydd RWM yn gyfrifol am asesu ac ymchwilio i'r amgylchedd wyneb a'r amgylchedd daearegol lleol ar safleoedd. Bydd yn gyfrifol am baratoi ceisiadau cynllunio, caniatáu a thrwyddedu a'r gwaith ymgynghori cysylltiedig â'r prosesau hyn. Bydd yn gyfrifol am sicrhau y cyflawnir y CGD yn ddiogel trwy'r ffordd y caiff ei ddylunio, ei adeiladu, ei weithredu a'i gau.

Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) yn gorff cyhoeddus anadrannol a grëwyd trwy Ddeddf Ynni 2004. Mae'r NDA yn awdurdod strategol sy'n berchen ar 19 o safleoedd yn y Deyrnas Unedig a rhwymedigaethau ac asedau niwclear sifil cysylltiedig y sector cyhoeddus. Mae'n adrodd i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol. Am rai agweddau ar ei swyddogaethau yn yr Alban, mae'n atebol i Weinidogion yr Alban.

Awdurdod Cynllunio

Mae'r cyfrifoldeb cynllunio am benderfynu ar geisiadau am CGD yn ddatganoledig a'r prif offeryn deddfwriaeth cynllunio sy'n llywodraethu'r gyfundrefn caniatáu ar gyfer CGD yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd angen o bosibl ystyried CGD yn DAC, o dan Ddeddf Cynllunio Cymru 2015, a fyddai'n golygu y byddai'n ysgwyddo rôl yr awdurdod cynllunio yn hytrach na'r awdurdod cynllunio lleol. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn gwneud unrhyw benderfyniadau ynghylch hyn nes ei bod wedi cyflwyno cynigion penodol a manwl i ymgynghori arnynt. Os yw Llywodraeth Cymru yn barnu, ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd ac ystyried ymhellach, y dylid dynodi unrhyw CGD yng Nghymru yn DAC, bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn dal i fod â rhan bwysig yn y broses gynllunio.

Y Rheoleiddwyr

Mae'r rheoleiddwyr yn gyrrff annibynnol ac ni fyddant yn awdurdodi adeiladu a gweithredu CGD ond os gall RWM (fel yr ymgeisydd am y trwyddedau a chaniatadau perthnasol) ddangos y bydd y cyfleuster yn ddiogel ac y bydd yr amgylchedd yn cael ei warchod.

Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear (ONR) yn gyfrifol am reoleiddio diogelwch a diogeledd y sector niwclear ledled Prydain; mae'n trwyddedu safleoedd niwclear ac yn dal y trwyddedai i gyfrif am eu diogelwch a'u diogeledd. Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear hefyd yn rheoleiddio cludiant deunyddiau ymbelydrol ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o ran mesurau diogelu. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn gyfrifol am weithredu a gorfodi deddfwriaeth diogelu'r amgylchedd yng Nghymru, gan reoleiddio gollyngiadau ymbelydrol a rhai nad ydynt yn ymbelydrol i'r aer a dŵr a gwaredu gwastraff solid i dir trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2016.

Mae ONR a CNC yn cydweithio'n agos a rhaid ymgynghori â hwy ar unrhyw gais am gymeradwyaeth cynllunio ar gyfer CGD. Rhaid ymgynghori â CNC hefyd ar unrhyw gais am gymeradwyaeth cynllunio ar gyfer ymchwiliadau tyllau turio i ganfod nodweddion safleoedd ymgeisiol posibl. Bydd CNC yn gyfrifol am reoleiddio ymchwiliadau tyllau turio trwy Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2016.

Atodiad 3

Geirfa

Achos diogelwch

Set o ddogfennau sy'n disgrifio dadleuon a thystiolaeth i gefnogi diogelwch cyfleuster neu weithgarwch. Fel arfer bydd hon yn cynnwys canfyddiadau asesiad diogelwch a datganiad o hyder yn y canfyddiadau hyn. Ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol, bydd angen nifer o achosion diogelwch yn ymdrin â diogelwch niwclear, diogelwch amgylcheddol a thrafnidiaeth. Gall achos diogelwch hefyd ymdrin â cham datblygu penodol (e.e. ymchwilio i safle, comisiynu, gweithredu, cau, ar ôl cau, ac ati).

Ardal Chwilio

Y 'gymuned' gychwynnol o fewn ardal ddaearyddol y bydd angen i'r corff cyflawni (RWM) ymgysylltu â hi. Gallai'r ardal fod yn weddol fawr i ddechrau a bydd ble y gellid cynnal yr asesiad safle a'r archwiliad (gan gynnwys tyllau turio archwilio dwfn), a gallai ar y cychwyn gael ei nodi gan ddefnyddio ffiniau awdurdod lleol. Bydd pobl yr Ardal Chwilio yn gymwys am gyllid buddsoddi cymunedol.

Ardal cyngor cymuned, cyngor cymuned, cynghorwyr cymuned

Mae'r cyfeiriadau at "ardaloedd cyngor cymuned" at yr ardaloedd cymuned a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r cyfeiriadau at "gynghorau cymuned" at y cynghorau a sefydlwyd yn y rhan fwyaf, ond nid pob un, o'r ardaloedd cyngor cymuned hynny. Mae'r cyfeiriadau at "gynghorwyr cymuned" at aelodau o'r cynghorau cymuned hynny mewn ardaloedd lle mae cynghorau o'r fath wedi'u sefydlu.

Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Corff cyhoeddus anadrannol a grëwyd trwy Ddeddf Ynni 2004. Mae hwn yn awdurdod strategol sy'n berchen ar 19 o safleoedd yn y Deyrnas Unedig a rhwymedigaethau ac asedau niwclear sifil cysylltiedig y sector cyhoeddus. Mae'n adrodd i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS). Am rai agweddau ar ei swyddogaethau yn yr Alban, mae'n atebol i Weinidogion yr Alban.

Awdurdod Lleol

Yr haen o lywodraeth leol sy'n gyfrifol am gyfleusterau a gwasanaethau lleol mewn ardal benodol.

Cyfleuster gwaredu daearegol

Mae cyfleuster gwaredu daearegol yn gyfleuster soffistigedig ei beirianwaith a all arunigo gwastraff ymbelydrol o fewn nifer o rwystrau amddiffynnol, yn ddwfn o dan y ddaear, er mwyn sicrhau na fydd unrhyw feintiau niweidiol o ymbelydredd byth yn cyrraedd yr amgylchedd ar yr wyneb. Bydd datblygu cyfleuster gwaredu daearegol yn brosiect seilwaith mawr o arwyddocâd cenedlaethol. Bydd yn darparu ateb parhaol i'r gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd sydd gan y Deyrnas Unedig eisoes (a gwastraff a ragwelir o orsafoedd pŵer niwclear newydd).

Cyfoeth Naturiol Cymru

Y rheoleiddiwr amgylcheddol i Gymru. Rôl CNC yw gorfodi cyfreithiau a rheoliadau penodedig sydd â'r nod o ddiogelu'r amgylchedd, yng nghyd-destun datblygu cynaliadwy, yn bennaf trwy awdurdodi a rheoli gollyngiadau ymbelydrol a gwarediadau gwastraff i'r aer,

dŵr a thir. Mae CNC yn rheoleiddio safleoedd niwclear o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol, ac yn dyroddi trwyddedau ar gyfer gollyngiadau nad ydynt yn ymbelydrol.

Cyllid buddsoddi cymunedol

Y cyllid a fydd ar gael i gymuned ar ôl iddi ddechrau ymgysylltu adeiladol gyda'r corff cyflawni (RWM). Bydd y cyllid ar ffurf hyd at £1 miliwn y flwyddyn i bob cymuned yn y rhan gynnar o'r broses leoli, gan godi i hyd at £2.5 miliwn y flwyddyn i bob cymuned i gymunedau sy'n mynd ymlaen i'r tyllau turio ymchwilio dwfn mae eu hangen i asesu addasrwydd posibl safleoedd. Bydd panel buddsoddiad cymunedol yn ystyried ceisiadau am i'r cyllid gael ei ryddhau i brosiectau cymunedol priodol.

Cyllid ymgysylltu

Dyma'r cyllid fydd ar gael gan y corff cyflawni (RWM) i hwyluso trafodaethau cyhoeddus a gwaith casglu a chyfnewid gwybodaeth. Bydd yn cael ei ddarparu er mwyn talu costau gwaith rheoli prosiect a gwaith gweinyddol cysylltiedig â'r Bartneriaeth Gymunedol a chyllid buddsoddi cymunedol. Gall hyn gynnwys trefnu ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd, copïo dogfennau neu waith gweinyddol cyffredinol. Mae'n bosibl y bydd hefyd yn talu costau teithio a threfniadau ar gyfer ymweliadau safle priodol, neu gyngor oddi wrth bobl allanol.

Cymuned a allai Gynnig Lleoliad

Y gymuned o gwmpas y safleoedd arfaethedig, ar ôl i safleoedd penodol gael eu nodi yn yr Ardal Chwilio. O bosibl yno fydd cyfleusterau'r cyfleuster gwaredu daearegol ar yr wyneb ac o dan y ddaear a'r holl effeithiau cysylltiedig o ran ei adeiladu a'i weithredu, ac felly bydd yn darparu lleoliad ar gyfer y cyfleuster gwaredu daearegol.

Cytundeb Cymunedol

Cytundeb wedi'i lofnodi gan y Bartneriaeth Gymunedol. Bydd y cytundeb yn nodi'r hyn a ddisgwylir oddi wrth y Bartneriaeth Gymunedol o ran darparu gwybodaeth ac ymgysylltu â'r bobl yn ehangach yn y gymuned yn ystod y broses leoli.

Gwastraff lefel ganolraddol

Gwastraffau ag ymbelydredd uwch na'r ffiniau actifedd uchaf i wastraff lefel isel ond nad oes angen cymryd gwres i ystyriaeth wrth ddylunio cyfleusterau storio neu waredu iddynt.

Gwastraff lefel isel

Gwastraffau ymbelydrol nad yw eu hymbelydredd yn uwch na lefelau penodedig. Yn gyffredinol, prif elfennau gwastraff lefel isel yw rwbwl adeiladu, pridd ac eitemau dur o'r gwaith o ddatgymalu a dymchwel adweithyddion niwclear a chyfleusterau niwclear eraill a glanhau safleoedd niwclear.

Gwastraff lefel uchel

Gwastraffau ymbelydrol sy'n cynhyrchu gwres o ganlyniad i'w hymbelydredd, fel bo'n rhaid cymryd y ffactor hwn i ystyriaeth wrth ddylunio cyfleusterau storio neu waredu.

Gwastraff ymbelydrol

Yr enw ar unrhyw ddeunydd sy'n cynnwys neu sydd wedi'i halogi gydag ymbelydredd uwchben trothwyon penodol a ddiffinnir mewn deddfwriaeth, ac na ragwelir unrhyw ddefnydd arall iddo, yw gwastraff ymbelydrol.

Gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd

Mae'n cynnwys y categorïau canlynol o wastraff ymbelydrol: gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolraddol, cyfran fach o wastraff lefel isel gyda chrynnodiad o radioniwclidau penodol sy'n ddigon i atal ei waredu fel gwastraff lefel isel.

Gweithgor Cynrychiolaeth Gymunedol

Y grŵp a sefydlwyd o ganlyniad i argymhelliad ym Mhapur Gwyn 2014. Cawsant eu cynnull i helpu i ddatblygu prosesau ymarferol o ran sut y bydd cynrychiolaeth gymunedol, y prawf o gefnogaeth y cyhoedd, a buddsoddiad cymunedol yn gweithio drwy gydol y broses i leoli cyfleuster gwaredu daearegol. Roedd gan y grŵp aelodaeth greiddiol o adrannau perthnasol eraill y llywodraeth a chynrychiolwyr gwirfoddol â sgiliau ac arbenigedd mewn materion yn ymwneud â llywodraeth leol, cyflawni prosiectau seilwaith mawr a'r byd academaidd.

Hawl i dynnu'n ôl

Y gallu i gymuned neu'r corff cyflawni (RWM) dynnu'n ôl o'r broses leoli. Yn achos y gymuned, gellir arfer yr hawl ar unrhyw adeg cyn cynnal y prawf o gefnogaeth y cyhoedd.

Mesurau Diogelu Niwclear

Prosesau adrodd a gwirio yw Mesurau Diogelu Niwclear, a ddefnyddir gan wladwriaethau i ddangos i'r gymuned ryngwladol nad yw deunydd niwclear sifil yn cael ei ddargyfeirio i raglenni milwrol neu raglenni arfau. Mae mesurau diogelu niwclear yn gallu cynnwys adrodd ar ddaliannau deunydd a chynlluniau datblygu niwclear sifil, arolygiadau o gyfleusterau niwclear gan arolygwyr rhyngwladol, a monitro, gan gynnwys camerâu mewn rhai cyfleusterau.

Partïon â Diddordeb

Y partïon – unigolion, tîrffeddiannwyr, awdurdodau lleol, busnesau neu grwpiau cymunedol – sy'n dod ymlaen ar y dechrau i ofyn am ragor o wybodaeth gan y corff cyflawni (RWM) neu i ddatgan diddordeb iddo.

Partneriaeth Gymunedol

Hon yw'r bartneriaeth rhwng aelodau o'r gymuned a'r corff cyflawni (RWM). Mae wedi'i bwriadu i hwyluso trafodaethau gyda phobl yn ehangach yn y gymuned ac i nodi gwybodaeth berthnasol mae arnynt ei hangen mewn perthynas â'r broses leoli.

Prawf o gefnogaeth y cyhoedd

Mecanwaith i ganfod a yw aelodau o'r gymuned sy'n cynnig lleoliad yn cefnogi datblygu cyfleuster gwaredu daearegol neu a ydynt yn ei wrthwynebu. Fe'i cynhelir yn hwyr yn y broses leoli pan mae'r gymuned berthnasol / cymunedau perthnasol wedi cael y cyfle i drafod eu pryderon a chael atebion i'w cwestiynau, ond cyn i'r corff cyflawni (RWM) gyflwyno ceisiadau i adeiladu cyfleuster gwaredu daearegol.

Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol

Y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol sy'n darparu craffu a chynghor annibynnol i'r Llywodraeth ar reoli gwastraffau ymbelydrol uwch eu hactifedd yn y tymor hir. Mae'n gorff cyhoeddus anadrannol cynghorol, a noddir gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).

Radioactive Waste Management Limited (RWM)

Is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA), corff cyhoeddus anadrannol. Mae RWM yn gyfrifol am weithredu rhaglen gwaredu daearegol sy'n ddiogel, yn gynaliadwy ac yn dderbyniol i'r cyhoedd.

Seilwaith gwaredu daearegol

Mae seilwaith gwaredu daearegol yn cynnwys:

- unrhyw gyfleuster daearegol dwfn ar gyfer gwaredu'r gwastraff – cyfleusterau gwaredu daearegol. Disgwylir i gyfleuster gwaredu daearegol gael ei adeiladu o leiaf 200 metr o dan wyneb y ddaear neu wely'r môr:
- y tyllau turio ymchwilio dwfn y mae eu hangen i ganfod nodweddion daeareg safle penodol er mwyn gallu ystyried ei addasrwydd fel safle ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol. Disgwylir i'r tyllau turio ymchwilio dwfn gael eu hadeiladu i lawr i 150 metr o leiaf o dan wyneb y ddaear neu wely'r môr.

Swyddfa dros Reoli Niwclear

Mae'r Swyddfa dros Reoli Niwclear yn rheoleiddio diogelwch a diogeledd niwclear yn annibynnol, ar 36 o safleoedd niwclear trwyddedig ym Mhrydain. Mae hefyd yn rheoleiddio cludiant deunyddiau ymbelydrol ac yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o sicrhau y cyflawnir rhwymedigaethau'r Deyrnas Unedig o ran mesurau diogelu.

Trwydded amgylcheddol

Trwydded a roddir o dan y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol gan CNC yng Nghymru. Mae'r drwydded yn rheoli'r meintiau llygredd a'r effaith amgylcheddol o weithgareddau penodol a ganiateir.

Trwydded safle

Mae trwydded safle niwclear yn ddogfen gyfreithiol a ddyroddir gan y Swyddfa dros Reoli Niwclear. Mae'n cynnwys gwybodaeth benodol i'r safle ac yn diffinio'r nifer a math o osodiadau a ganiateir. Mae'n rheoli'r lefelau diogelwch a diogeledd y mae'n rhaid eu cynnal ar y safle.

Twll turio

Twll turio yw'r term cyffredinol am unrhyw gloddiad silindrig i'r ddaear a wneir gan ddyfais drilio at ddibenion megis ymchwilio i safle, profi a monitro. Mae angen tyllau turio ymchwilio dwfn er mwyn canfod nodweddion ac asesu safleoedd posibl a byddant yn rhan annatod o'r broses i ddatblygu cyfleuster gwaredu daearegol.

Ymbelydredd

Atomau yn ymddatod ar hap yn ddigymell; fel arfer gollyngir pelydriad ar yr un pryd.

Ymgysylltu adeiladol

Y gwaith o ffurfioli'r broses ymgysylltu cymunedol gan gynnwys ffurfio Partneriaeth Gymunedol a Chytundeb Cymunedol sy'n cael ei lofnodi gan y Bartneriaeth.

Ymgysylltu ffurfiannol

Dyma'r adeg pan mae'r broses leoli ffurfiol yn dechrau ac mae'r partïon â diddordeb yn barod i drafod yn gyhoeddus eu diddordeb yn y broses o leoli cyfleuster gwaredu daearegol ac i agor y drafodaeth yn eu cymuned. Bydd tîm ymgysylltu ffurfiannol yn cael ei sefydlu i helpu i feithrin hyder yn y broses ymgysylltu cymunedol ac i ddechrau deall ac ateb cwestiynau sydd gan y gymuned.